

## CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#)

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

### 181 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 182 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Marianne Cowpe, Sally Hanks a Belinda Loveluck-Edwards.

### 183 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 184 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2022 cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2022 a chofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2022 fel cofnod cywir.

## 185 CYHOEDDIADAU –

- (i) Dwedodd y Maer ei bod wedi mynychu 17 o ddigwyddiadau ers ei hethol yn Faer. Erbyn hyn roedd hefyd ddiweddariad Maerol misol ar dudalen Facebook y Cyngor a oedd yn rhoi crynodeb o'r digwyddiadau a fynychwyd.

Dwedodd y Maer ei bod wedi bod yn fraint cael nodi gwasanaeth y lluoedd arfog gyda chyn-filwyr ar Ddiwrnod Cofio'r Falklands a diwrnod y Lluoedd Arfog yn ogystal â gyda'r morwyr ar Ddiwrnod Gwasanaeth Môr y Barri.

Bu'n bleser arbennig ganddi adnewyddu cysylltiadau â chynrychiolwyr o Fécamp a Mouscron, gefeilldrefi'r Cyngor, a dathlu Diwrnod Treftadaeth Bwylaidd yn y Senedd. Bu'r Maer hefyd yn falch iawn o gefnogi nifer o ddigwyddiadau a amlygai'r gwaith a wnaed gan wirfoddolwyr, gyda chefnogaeth y Cyngor, gan gynnwys agor yr ystafell weithgareddau newydd yn Llyfrgell Gymunedol y Rhws, yr ŵyl Sgowtiaid a Geidiaid flynyddol ac agor y cyrtiau tenis ar eu newydd wedd ym Mharc Romilly, y Barri.

Fis nesaf roedd yn edrych ymlaen at gefnogi ras 10k Ynys y Barri gyda thîm o staff yn rhedeg i gefnogi Sefydliad y Maer a oedd bellach ar agor i dderbyn ceisiadau am arian ganddo.

- (ii) Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddweud i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ar 14 Chwefror becyn cymorth gwerth £177m i gynorthwyo cartrefi ledled Cymru gyda'r argyfwng costau byw. Roedd y Cyngor wedi derbyn £5,014,200 er mwyn gweinyddu taliadau dan y prif gynllun. Roedd y canllawiau terfynol wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru ar 23 Mawrth 2022.

Roedd y Cyngor wedi nodi tua 32,850 o gartrefi a fyddai'n gymwys am y taliad costau byw o £150 ac mewn dim ond 6 wythnos ar ôl derbyn canllawiau Llywodraeth Cymru, roedd y Cyngor eisoes wedi talu bron i 52% o aelwydydd a oedd â hawl i gael y taliad. Roedd pob cartref cymwys bellach wedi derbyn llythyr yn dweud wrthynt sut i hawlio eu taliad costau byw a hyd yma mae 28,435 (87%) wedi derbyn y taliad, sy'n golygu bod cyfanswm o £4,265,250 wedi'i ddsbarthu i helpu trigolion lleol.

Roedd staff y Cyngor wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod cwsmeriaid wedi gallu hawlio eu taliad costau byw ac anogodd y rheiny nad oeddent wedi ymateb i'r llythyr i gyflwyno eu cais cyn gynted â phosib. Byddai unrhyw un nad oedd wedi ymateb neu nad oedd wedi derbyn y llythyr cychwynnol, yn derbyn llythyr atgoffa ar ddiwedd y mis yn dweud wrthynt am y weithdrefn i'w dilyn er mwyn hawlio'r taliad.

## 186 YSTYRIED YR HYSBYSIAD O GYNNIG CANLYNOL [A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR G.D.D. CARROLL, R.E. GODFREY AC R.R. THOMAS] –

Mae Cyngor Bro Morgannwg:

- Yn gresynu bod Cyngor Bro Morgannwg, yn wahanol i Gynghorau eraill yng Nghymru, ar hyn o bryd yn cynnal holl gyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Cabinet a'r Pwyllgorau o bell ac nid mewn fformat hybrid;
- Yn cydnabod bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn caniatáu ar gyfer craffu a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol na chyfarfodydd a gynhelir yn rhithwir;
- Yn galw am i gyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Cabinet a Phwyllgorau gael eu cynnal mewn fformat hybrid yn y dyfodol, ac i'r holl gamau angenrheidiol gael eu cymryd i ganiatáu i hyn ddigwydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at bandemig Covid 19 oedd wedi dod â llawer o newidiadau i batrymau gwaith y Cyngor, gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal o bell, a oedd wedi bod yn fuddiol yn ei farn ef, ond a gredai fod amgylchiadau niferus erbyn hyn lle byddai'n well i'r Aelodau gwrdd wyneb yn wyneb am wahanol resymau, gan gynnwys y craffu ychwanegol y byddai rhyngweithio wyneb yn wyneb yn ei gyflwyno, y byddai lefel y cyfarfodydd yn gwella'r penderfyniadau a wneid yn gyffredinol. Gan gyfeirio at sawl Cyngor yng Nghymru oedd wedi gwneud cynnydd tuag at gyflwyno cyfarfodydd hybrid, lle'r oedd cynghorwyr yn cael cyfle i naill ai eistedd yn y cyfarfod ei hun neu gymryd rhan ynddo'n rhithwir. Roedd yn bersonol yn ymwybodol y byddai llawer o aelodau'r cyhoedd ac yn wir rhai Aelodau etholedig y Cyngor yn cymryd agwedd fwy haearnidd y dylai pob Aelod ddychwelyd i eistedd yn Siambr y Cyngor, ond roedd yn derbyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a oedd yn golygu bod cyfarfodydd hybrid yn opsiwn a bod yn rhaid iddynt fod ar gael. Gan gyfeirio ei fod yn difaru bod cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal yn rhithwir a'r problemau technegol cysylltiedig yn sgil hynny, y ffaith na allai Aelodau o'r Cyngor yn ei farn ef weld sut yr oedd yr Aelodau eraill yn pleidleisio, gan gynnwys anallu'r cyhoedd i fod yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus yn ystod cyfarfodydd. Roedd o'r farn ei bod yn hanfodol bod y Cyngor yn symud tuag at gyfarfodydd hybrid cyn gynted â phosib. Anogodd bob Aelod i gefnogi'r Cynnig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Brooks (Dirprwy Arweinydd y Cyngor) at Ganllawiau Statudol Interim Llywodraeth Cymru gan atgoffa'r Cynghorydd Carroll eu bod yn dweud nad oedd gofyn i bob cyfarfod gael ei gynnal yn yr un lleoliad bob tro. Cyfeiriodd hefyd at ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a oedd yn gofyn i gyfranogwyr ymuno â phob cyfarfod ffurfiol drwy ddulliau o bell ac nad oeddent yn nodi y byddai pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl wyneb yn wyneb. Gan gyfeirio at ail bwynt y Cynnig, roedd hi am chwalu'r myth o ran y ffaith bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn galluogi craffu a phenderfyniadau mwy effeithiol na chyfarfodydd rhithwir. Roedd hi o'r farn bod yr union bwynt hwnnw wedi cael ei wrthbrofi o gofio bod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn rhithwir a bod yr Aelodau yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwrandao ar y drafodaeth. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod nifer y cwestiynau a gyflwynir gan y cyhoedd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor wedi cynyddu, rhywbeth yr oedd yn ei groesawu ac a ystyriai yn faromedr o amrywiaeth ymgysylltu. Gallai'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd heb orfod teithio'n gorfforol i'r Swyddfeydd Dinesig. Roedd cyfarfodydd rhithwir wedi rhoi mwy o fynediad i'r cyhoedd drwy eu galluogi i arsylwi ar y cyfarfodydd a, lle bo'n berthnasol, gymryd rhan drwy ddefnyddio technoleg ac nid oedd amheuaeth bod unrhyw berson dan anfantais.

Gan gyfeirio at gyfarfodydd hybrid, dwedodd y Cynghorydd Brooks ei bod yn bersonol yn eu croesawu gan atgoffa'r Cynghorydd Carroll, fel ei fod yn gwybod yn iawn, fod y Cyngor yn gweithio tuag at gyflwyno cyfarfodydd hybrid a dweud ei fod yn anghywir i ddweud mai'r Cyngor oedd yr unig Gyngor nad oedd yn cyflwyno cyfarfodydd o'r fath gan ei bod yn ymwybodol bod cynghorau eraill yng Nghymru hefyd nad oeddent mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gynnal cyfarfodydd hybrid. Roedd hi hefyd yn ymwybodol bod nifer sylweddol o Aelodau oedd eto i ddilyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r ateb hybrid ac anogodd yr Aelodau hynny oedd eto i ddilyn yr hyfforddiant i wneud hynny cyn gynted â phosib. Ni fyddai'n cefnogi'r Cynnig.

Nododd y Cynghorydd Birch fod y pwnc yn agos iawn at ei chalon gan ei fod yn galluogi'r Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd o'u cartrefi. Fel prif ofalwr ei phlant, ei hwyrion ac aelodau oedrannus o'i theulu, yn aml iawn roedd yn her mynychu cyfarfodydd yn y modd traddodiadol blaenorol. I bobl fel hi ei hun a oedd wedi gorfod teithio i fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn flaenorol, roedd hyn yn golygu amser ychwanegol i yrru i gyfarfodydd ac yn ôl ohonynt. Roedd hi hefyd yn ei chael yn ddiddorol bod y Cynnig wedi ei godi a'i gefnogi'n bennaf gan ddynion a oedd yn anaml mewn cymdeithas â chyfrifoldebau gofalu neu feichiau yr oedd disgwyl i lawer o fenywod ymgymryd â nhw. Nid oedd hi'n diystyru'r ffaith bod rhai dynion yn gwneud hyn, ond yn bennaf merched oedd yn gwneud hynny ac fe atgoffodd yr Aelodau, os oedd y Cyngor yn chwilio am ystod fwy amrywiol o Gynghorwyr yn y dyfodol, boed hynny o ran oedran, rhyw neu unrhyw fath arall o nodwedd, roedd yn bwysig cynnal cyfarfodydd mor hygyrch â phosibl i gymaint o bobl â phosib.

Anghytunodd y Cynghorydd Protheroe hefyd â'r Cynnig gan nad oedd hi'n cydnabod y byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn galluogi craffu mwy effeithiol na phenderfyniadau gwell. Roedd y ffaith y gellid gweld a chlywed pawb yn y cyfarfod ac y gallai pawb drafod materion heb fod yn yr un ystafell, yn berthnasol. Atgoffodd yr Aelodau hefyd fod rheidrwydd a chyfrifoldeb ar bob un ohonynt i arwain trwy esiampl a cheisio cynnal cyfarfodydd y Cyngor gyda'r effaith isaf ar yr amgylchedd drwy dorri allyriadau carbon. Cyfeiriodd at sylwadau diweddar Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig a wnaed yng Nghynhadledd Hinsawdd Petersburg. Ar ddiwrnod poethaf y flwyddyn ar gofnod, roedd yn bwysig bod pob Aelod yn chwarae ei ran i leihau allyriadau tŷ gwydr er mwyn helpu i leihau maint tywydd poeth iawn yn y dyfodol ac roedd yn bwysig cyrraedd sero net cyn gynted â phosibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Penn at amgylchiadau teuluol personol ac roedd o'r farn y dylid cymeradwyo unrhyw beth a fyddai'n cynorthwyo'r Aelodau, gan gynnwys Aelodau Lleyg ac arsyllwyr, i fynychu cyfarfodydd. Roedd y defnydd o gyfarfodydd rhithwir wedi gwella cyfranogiad yn ei farn ef gan alluogi pobl hŷn a'r rheiny â phroblemau symudedd i allu cymryd rhan.

Gan gyfeirio at gydbwyso ei gyfrifoldebau gofal plant, roedd defnyddio cyfarfodydd rhithwir wedi golygu y gallai rannu'r cyfrifoldebau gofal plant hynny, gan atgoffa'r Aelodau nad dyma'r 1950au ac roedd gan dadau a mamau gyfrifoldebau cyfartal o ran gofal plant. Gan droi ei sylw at y Cynnig, roedd yn amau os oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gwella craffu a phenderfyniadau a wneid ac yn ei brofiad ef, roedd y trafodaethau yn y cyfarfodydd

yr oedd wedi eu mynychu'n rhithwir wedi bod yn drylwyr ac yn fanwl. Dylid croesawu unrhyw welliannau a fyddai'n galluogi'r Aelodau i fynychu cyfarfodydd.

Roedd y Cynghorydd Neil Thomas wedi synnu bod y Grŵp Ceidwadol wedi cyflwyno'r Cynnig a gwnaeth eu hatgoffa fod cyfarfodydd rhithwir wedi'u cyflwyno fel mesur mewn ymateb i'r pandemig ac roedd yn pryderu ei bod yn ymddangos bod y Grŵp Ceidwadol yn ymddwyn fel pe bai Covid wedi diflannu. Roedd yn ymwybodol o'r data diweddar a oedd yn dangos bod 1 o bob 17 o bobl yng Nghymru yn dioddef o Covid a bod y nifer hwnnw'n cynyddu ledled y byd. Ni welai unrhyw reswm i ddychwelyd i gyfarfodydd o dan yr hen drefn nac i anwybyddu diogelwch personol ein gilydd. Gwelai'r Cynnig hefyd fel ymgais i dynnu sylw oddi ar y materion go iawn y mae'r Blaid Geidwadol yn eu hwynebu yn San Steffan a Bae Caerdydd. Dwedodd na fyddai'n cefnogi'r Cynnig.

Cafodd y Cynghorydd Sivagnanam, oedd yn siarad yn erbyn y Cynnig, ei siomi bod y Cynghorydd Carroll yn ceisio llusgo Aelodau Etholedig yn ôl i'r oesoedd cynhanesyddol. Gan gytuno â'r sylwadau a wnaed yn flaenorol gan y Cynghorydd Penn fod y Grŵp Ceidwadol i'w weld yn honni bod presenoldeb yn fwy atebol a bod craffu'r Cyngor ar benderfyniadau yn well am fod yr Aelodau'n eistedd yn yr un ystafell. Ni chytunai hi â'r farn hon o ystyried y bu modd cynnal cyfarfodydd rhithwir drwy'r blynyddoedd a effeithiwyd gan y pandemig, yn amlwg felly nid oedd hynny'n wir. Adleisiodd bwyntiau blaenorol a wnaed yn gynharach yn y drafodaeth ynghylch cyfarfodydd rhithwir yn rhoi mwy o hygyrchedd i'r Aelodau fynychu'n rhithwir a chydbwyso ymrwymïadau gwaith / bywyd a hefyd roedd yn haws i'r cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor. Yn ogystal, atgoffodd yr Aelodau nad oedd y Cyngor mor bell yn ôl wedi gwneud ei Ddatganiad Cyngor Amrywiol ac un mesur o hyn oedd dileu rhwystrau i bobl rhag gallu cyrchu democratiaeth leol ac roedd cyfarfodydd rhithwir yn helpu gyda hyn. Cytunodd hefyd â phwyntiau blaenorol a wnaed gan y Cynghorydd Brooks o ran y Cyngor yn rhoi Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliadau ar waith a oedd yn darparu ar gyfer cyfarfodydd hybrid y Cyngor, y Cabinet a chyfarfodydd rhai Pwyllgorau eraill. Gan ystyried hyn, ni ddeallodd bwrpas y Cynnig o ystyried y ffaith bod y Cyngor eisoes wedi cytuno i gynnal cyfarfodydd hybrid wedi i'r Aelodau gael eu hyfforddi.

Roedd y Cynghorydd Wilson hefyd â barn debyg i'r siaradwyr blaenorol ar y mater. Yn benodol, roedd yn erbyn ensyniad y Cynnig nad oedd yr Aelodau'n cyflawni eu cyfrifoldebau ac fel aelod newydd o'r Cabinet, roedd wedi mynychu llawer o gyfarfodydd. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith nad oedd y fformat cyfarfod presennol wedi atal ymgysylltu gan yr Aelodau, gan nodi bod rhestr sylweddol o Aelodau yn aros i gyfrannu at y drafodaeth. Nid oedd yn amau bod y Grŵp Ceidwadol yn ymwybodol iawn o'r gwaith parhaus i gyflwyno cyfarfodydd hybrid ac roedd yn siomedig bod y Cynnig wedi'i gyflwyno.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Campbell, a gefnogodd y Cynnig, at ei hamgylchiadau personol ei hun gan fod y pandemig wedi effeithio ar ei hiechyd meddwl. Teimlai fod cyfarfodydd rhithwir yn creu rhwystr iddi gyfathrebu a chyflawni ei rôl etholedig yn effeithiol. Fel Aelod newydd ei hethol, roedd yn teimlo bod mynychu cyfarfodydd o bell wedi effeithio'n negyddol ar ei hiechyd meddwl.

Roedd y Cynghorydd Emma Goodjohn, gan gyfeirio at ei phroblemau iechyd meddwl

ei hun, â barn i'r gwrthwyneb i un y Cynghorydd Campbell, gan ei bod yn teimlo bod cyfarfodydd rhithwir yn ei gwneud yn haws iddi ymgysylltu â chyfarfodydd. Gan ei bod hefyd yn Aelod newydd ei hethol, canfu pe bai'n rhaid iddi fod yn bresennol yn gorfforol mewn cyfarfod y byddai'n gweld hyn yn heriol ac yn llai tebygol o allu cyfrannu at y drafodaeth. Cytunodd hefyd â'r pwyntiau blaenorol a wnaed o ran y cynnydd mewn cyfraddau Covid, teithio i ac o gyfarfodydd a'r gallu i gydbwysu ymrwymadau teulu a gwaith.

Nododd y Cynghorydd Perry ei fod wedi bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell ers dros 20 mlynedd. Roedd yn amlwg iddo ef fod mwy o ymgysylltu bellach yn digwydd ers 2020 a chyflwyno technoleg newydd. Wrth gymharu ag 20 mlynedd yn ôl, roedd hyn bellach ymhell ar y blaen gan gofio o'i brofiad ef y byddai penderfyniadau pwysig wedi'u gwneud mewn cyfarfodydd dros y ffôn gyda gwahanol bobl, mewn gwahanol wledydd, gyda chefnidroedd gwahanol, oll yn cydweithio i wneud penderfyniadau effeithiol. Felly ni welai sut y byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Roedd yn ymwybodol ei bod yn bwysig bod yr Aelodau'n gwneud eu gwaith cartref cyn mynychu cyfarfodydd a'u bod yn darllen yr adroddiadau oedd yn mynd i gael eu trafod. Roedd hefyd yn ymwybodol o'r neges frys "Arhoswch gartref oherwydd y gwres" sef yr union beth y dylai'r Aelodau fod yn ei wneud. Gwnaeth gydnabod hefyd fod achosion Covid ar gynydd yn ddramatig ac felly, roedd yn bwysig bod Aelodau Etholedig yn dangos arweinyddiaeth o ystyried y ffaith bod rhai trigolion yn dal i ofni mynd allan yn gyhoeddus. Dwedodd y byddai'n pleidleisio yn erbyn y Cynnig.

Nododd y Cynghorydd Payne y byddai'n pleidleisio yn erbyn y Cynnig ac y byddai wedi cael trafferth mynychu'r cyfarfod yn bersonol y noson honno pe bai wedi'i gynnal wyneb yn wyneb oherwydd ymrwymadau personol. Fel Aelod Etholedig gyda nifer o gyfrifoldebau gan gynnwys fel Maeres bresennol Cyngor Tref y Barri, roedd ganddi hefyd gyfrifoldebau gofalu am aelodau oeddrannus ei theulu ac roedd wrth ei bodd bod cyfarfodydd rhithwir yn ei galluogi i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac i gyflawni ei rôl gymunedol hefyd. Canfu fod yr hyfforddiant i'r Aelodau ar yr ateb hybrid yn hawdd iawn, roedd hi hefyd yn teimlo bod yr Aelodau na fyddent fel arfer yn cyfrannu at y drafodaeth wrth fynychu cyfarfod yn gorfforol yn Siambr y Cyngor yn gallu cyfrannu at gyfarfod rhithwir o gartref. Ei barn hi oedd bod lles yr Aelodau wastad yn cael ei ystyried gan swyddogion.

Roedd y Cynghorydd Haines, wrth gyfeirio at y Cynnig, yn poeni nad oedd yr Aelodau yn deall y cynnig. Atgoffodd yr Aelodau fod y Cynnig yn cyfeirio at gyfarfodydd hybrid ac na fyddai pasio'r Cynnig yn effeithio ar hawliau'r Aelodau i barhau i gyfarfod ar-lein. Yna trodd ei sylw at y pwyntiau a wnaed wrth gyfeirio at rwystrau i bobl fynychu cyfarfodydd a'r pwynt a wnaed o ran pobl anabl a phobl yn ceisio cael mynediad i gyfarfodydd a meddwl tybed a oedd yr Aelodau wedi ystyried yr aelodau hynny o'r cyhoedd nad oedd ganddynt fynediad i'r dechnoleg i wyllo cyfarfodydd ac y byddent yn gallu arsylwi ar eu Cynghorydd mewn cyfarfodydd. Soniodd hefyd am broblemau TG yr oedd wedi'u dioddef wrth fynychu cyfarfodydd yn rhithwir a oedd wedi golygu ei fod wedi colli cysylltiad â chyfarfod ac wedi methu cyfrannu. Gofynnodd i'r Aelodau ailystyried eu safbwynt a chefnogi'r Cynnig.

Gwnaeth y Cynghorydd Cave, a gytunodd â'r pwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Haines, yn enwedig y dryswch amlwg ynghylch pwrpas y Cynnig, atgoffa'r Aelodau

bod y Cynnig yn galw am gyfarfodydd hybrid ac roedd hynny'n ymwneud â dewis Aelodau unigol. Nododd ei bod hefyd wedi cael problemau TG a oedd wedi effeithio ar ei gallu i gymryd rhan mewn cyfarfod yr wythnos flaenorol. Nododd y byddai'n cefnogi'r Cynnig.

Roedd y Cynghorydd Charles, gan ddiolch i'r Cynghorydd Haines a'r Cynghorydd Cave am eu cyfraniad, ac am egluro pwrpas y Cynnig, o'r farn bod y mater yn un o egwyddor lle'r oedd dewis gan yr Aelodau i fynychu cyfarfodydd yn rhithwir neu wyneb yn wyneb. Teimlodd nad oedd cyfarfodydd rhithwir bob amser yn dangos ddemocratiaeth ar waith i'r cyhoedd, er enghraifft pleidlais â llaw, a nododd y byddai'n cefnogi'r Cynnig.

Dwedodd y Cynghorydd Perkes, gan gyfeirio at y sylwadau blaenorol a wnaed gan y Cynghorwyr Haines, Cave a Charles, ei bod yn ymddangos eu bod yn awgrymu nad oedd cyfarfodydd yn effeithiol oni bai bod yr Aelodau'n bresennol yn gorfforol mewn ystafell gyfarfod. Y mater a oedd yn cael ei drafod oedd bod y Cynnig yn awgrymu nad oedd cyfarfodydd rhithwir yn effeithiol o ran craffu a gwneud penderfyniadau. Mae'n amlwg nad oedd hyn yn wir. Ni welai sut oedd cyfarfodydd hybrid yn newid y brif ddadl y byddai cyfarfodydd yn llai effeithiol. Roedd awgrymu nad oedd yr Aelodau a oedd yn mynychu cyfarfodydd yn rhithwir yn ymgysylltu'n llawn â chyfarfodydd nac yn gwneud penderfyniadau priodol yn ddiffygiol. Cytunodd â'r pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Sivagnanam o ran presenoldeb ac roedd o'r farn bod hyn yn awgrymu barn hen ffasiwn ac yn amlwg roedd technoleg wedi symud ymlaen ac nid oedd angen i'r Aelodau fod yn bresennol mewn un ystafell i wneud penderfyniadau effeithiol.

Roedd y Cynghorydd Champion yn pryderu am naws rywiaethol rhai o'r sylwadau a wnaed yn gynharach yn y drafodaeth Cefnogai symud i gyfarfodydd hybrid gan nodi ei fod ef hefyd wedi cael anawsterau TGCh a chysylltu â chyfarfodydd. Gobeithiai y byddai cyfarfodydd hybrid yn dechrau'n fuan ac roedd yn pryderu wrth glywed nad oedd rhai Aelodau eto wedi cwblhau'r hyfforddiant i ddefnyddio'r datrysiad hybrid a gofynnodd a fyddai modd atgoffa'r Aelodau i'w gwblhau.

Ni chytunai y Cynghorydd Mahoney o reidrwydd â'r holl sylwadau a wnaed gan siaradwyr blaenorol ond atgoffodd yr Aelodau mai'r Cynnig oedd sicrhau y byddai cyfarfodydd hybrid yn digwydd cyn gynted â phosibl a bod gan yr Aelodau'r dewis i fynychu cyfarfodydd yn rhithwir neu wyneb yn wyneb, yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd. Ni welodd pam y dylai'r Cyngor fod yn wahanol i unrhyw Gyngor arall wrth ddarparu ar gyfer cyfarfodydd hybrid a'r unig eithriad i hynny oedd pe bai cynnydd yn y cyfraddau Covid. Gan gyfeirio at yr Aelodau hynny a oedd yn nerfus am siarad yn gyhoeddus, nid oedd modd osgoi hyn o ystyried eu bod yn cynrychioli etholwyr yn eu ward. Roedd yn gwbl gefnogol o gyfarfodydd hybrid ac roedd gan yr Aelodau'r dewis i gymryd rhan yn unol â'u dewis. Dwedodd y byddai'n cefnogi'r Cynnig.

Gan gyfeirio at fyw mewn cymdeithas ddemocrataidd, ailadroddodd y Cynghorydd Godfrey mai bwriad y Cynnig oedd rhoi rhyddid i ddewis. Roedd yntau hefyd wedi magu teulu ifanc gyda'i wraig a rhannu'r cyfrifoldebau gofalu bryd hynny ac roedd ei blant bellach yn eu 30au. Gwerthfawrogodd y gallai trefniadau gofal plant fod yn heriol, ond byddai cyflwyno cyfarfodydd hybrid yn cefnogi'r Aelodau a oedd â chyfrifoldebau o'r fath i fynychu cyfarfodydd o'u cartrefi. Gan gyfeirio at y sylwadau a

wnaed ynghylch yr Aelodau'n teithio i gyfarfodydd, credai y byddai'r cyhoedd yn siomedig o glywed bod hyn yn cael ei ddefnyddio fel esgus rhag mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Anghytunodd y Cynghorydd Morgan â'r Cynnig gan ei fod yn amlwg bod y Cyngor eisoes yn symud at gyflwyno cyfarfodydd o'r fath a chyfeiriodd at Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliadau'r Cyngor y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd fis Ebrill yn gynharach yn y flwyddyn. Ni chytunai y byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn fwy buddiol na chyfarfodydd a thrafodaethau a oedd eisoes wedi digwydd, a gynhaliwyd yn rhithwir gan y Cyngor ers peth amser. Gan gyfeirio at ei anabledd - heb fawr o glyw naturiol, canfu fod cyfarfodydd rhithwir wedi rhoi profiad llawer gwell gan ei alluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda chymorth technoleg ychwanegol. Roedd yn pendroni pam bod y mater yn cael ei drafod o ystyried bodolaeth Polisi cytunedig y Cyngor pan oedd materion mwy difrifol i'r Cyngor ymdrin â nhw. Atgoffodd yr Aelodau fod swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i sefydlu aelodau'r Cyngor yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol diweddar, yn rhoi TGCh iddynt a hyfforddiant wedi ei gwblhau. Ystyriodd fod rhai o'r sylwadau a wnaed yn flaenorol wedi bod yn annheg, gan gynnwys y feirniadaeth ymhlwg yn y Cynnig.

Diolchodd y Cynghorydd Dr Johnson i'r Cynghorydd Morgan am ei sylwadau ac am fod yr Aelod cyntaf i gael at graidd y Cynnig. Roedd o'r farn bod y Grwpiau Ceidwadol a Llafur ill dau yn bod yn annidwyll o ystyried y ffaith bod gan y Cyngor Bolisi ar waith a gafodd ei gymeradwyo fis Ebrill. Roedd yn ymwybodol bod hwn bellach yn cael ei weithredu gan swyddogion o fewn y timau Gwasanaethau Democrataidd a TGCh. Roedd hefyd yn ymwybodol y byddai cyfarfod hybrid cyntaf y Cabinet yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn yr wythnos. Roedd yn amlwg hefyd fod rhai Aelodau yn mynychu cyfarfod y Cyngor y noson honno yn bresennol yn Siambr y Cyngor ac felly roedd y Cynnig yn fwy annidwyll.

Roedd o'r farn nad oedd y Cynnig yn ychwanegu unrhyw beth newydd ac y gellid bod wedi delio'n well ag ef drwy ofyn cwestiwn ynglŷn ag amserlen cyflwyno cyfarfodydd hybrid. Roedd hefyd yn rhyfedd bod y Grŵp Llafur yn cwyno am y Cynnig pan oedd egwyddor cyfarfodydd hybrid eisoes wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, gwnaeth gydnabod mai dim ond y Cynghorydd Perkes oedd wedi nodi bod ail bwynt y Cynnig o bosib yn ddiffygiol. Roedd yn pryderu bod y Grŵp Llafur yn mynd i bleidleisio yn erbyn y Cynnig y gellid ei ddehongli wedyn fel pleidleisio yn erbyn y Polisi a gymeradwywyd yn flaenorol. Awgrymodd, pe bai'r Grŵp Llafur yn erbyn ail bwynt y Cynnig, y byddai'n synhwyrol iddynt gynnig diwygiad. Ni welodd unrhyw bwynt pleidleisio yn erbyn y Cynnig gan y byddai gwneud felly'n gyfystyr â phleidleisio'n erbyn yr hyn a oedd eisoes yn cael ei weithredu.

Soniodd y Cynghorydd R. Thomas am rai o'r pwyntiau blaenorol a wnaed gan ei gydweithwyr yn y Grŵp sef ei fod yn fater o ddewis i gyfarfod yn bersonol neu i gyfarfod yn rhithwir. Diolchodd hefyd i'r Cynghorydd Campbell am ei sylwadau. O'i safbwynt personol ac fel Aelod ifanc newydd ei ethol roedd am gwrdd â phobl wyneb yn wyneb ac roedd hyn yn bwysig iddo. Gan gyfeirio at nifer y Cynghorau eraill yng Nghymru a oedd eisoes wedi gweithredu cyfarfodydd hybrid, llawer ohonynt yn Gynghorau dan reolaeth Llafur, tybed pam mai'r Cyngor hwn oedd un o'r unig ddau a oedd eto i wneud hynny. Roedd am i'r Cyngor wneud yr un peth â gweddill Cymru a



gofynnodd pam bod yr Aelodau Llafur yn gwrthwynebu'r hyn yr oedd y blaid Lafur Gymreig eisoes yn ei wneud ledled Cymru.

Nid oedd yr Arweinydd, gan gyfeirio at y drafodaeth ddiddorol a amlygodd fod yr Aelodau yn frwd dros y gallu i fynyachu cyfarfodydd yn rhithwir, yn cytuno â bwriad cyffredinol y Cynnig gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth anghywir. Roedd yn anghywir awgrymu nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa debyg i gynghorau eraill Cymru. O ran ail bwynt y Cynnig, anghytunai hi hefyd â'r ffaith bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn galluogi craffu mwy effeithiol a phenderfyniadau gwell na chyfarfodydd rhithwir. Gan gyfeirio at ddadansoddeg o wefan y Cyngor yn ymwneud â niferoedd gwyllo unigol ar gyfarfodydd y Cyngor, roedd yn amlwg bod llawer gwell ymgysylltu â'r cyhoedd o'i gymharu â'r dull traddodiadol gyda'r cyhoedd yno'n bresennol ac yn arsylwi ar gyfarfodydd yn yr oriel gyhoeddus. Roedd yn amlwg bod cyfarfodydd rhithwir wedi hwyluso gwell cyfranogiad gan y cyhoedd. Atgoffodd hi'r Cynghorydd Carroll, pan drafodwyd Polisi'r Cyngor o ran cyfarfodydd aml-leoliad yng nghyfarfod y Cyngor fis Ebrill, na wnaeth ef siarad yn ei erbyn nac ychwaith ei wrthwynebu. Teimlodd ei bod yn iawn cywiro'r cofnod gan fod y Cyngor yn symud ymlaen i gyflwyno cyfarfodydd hybrid a bod y Cynghorydd Carroll yn gwybod hynny'n iawn. Nid oedd ganddi amheuaeth y byddai'r polisi ar gyfarfodydd aml-leoliad yn cynyddu amrywiaeth ymgysylltu ac yn cefnogi mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth leol yn y dyfodol. Ymfalchiai hi yn y ffaith bod ei Grŵp yn amrywiol iawn ei natur, rhywbeth nad oedd yn wir ar draws holl grwpiau gwleidyddol y Cyngor. Gan ddod â'r drafodaeth i ben, roedd yr Arweinydd o'r farn bod y Cynnig yn ddiangen gan ei fod yn rhywbeth a oedd eisoes yn cael ei wneud.

Wrth bleidleisio ar y Cynnig, cafodd y Cynnig ei wrthod.

#### 187 DEFNYDD O BWERAU BRYS Y PRIF WEITHREDWR (PW) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng y Rheolwr-gyfarwyddwr.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar Gyfansoddiad y Cyngor.

#### 188 POLISI CYFARFODYDD AMLLEOLIAD DIWYGIEDIG (CYF) –

PENDERFYNWYD – nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C922, 25 Ebrill, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor).

#### Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

## 189 CANLLAW CYFANSODDIAD MODEL DRAFFT (CYF) –

PENDERFYNWYD – nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C926, 25 Ebrill, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

## 190 TRWYDDEDAU MASNACHU PRIFFYRDD DROS DRO (CYF) –

PENDERFYNWYD – nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C26, 23 Mehefin, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

## 191 Y GRONFA LEFELU I FYNY (ROWND 2) A CHRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (CYF) –

PENDERFYNWYD – nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C28, 23 Mehefin, 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor).

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

## 192 CWESTIYNAU SY'N UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau gan yr Aelodau a oedd wedi'u nodi ar yr agenda.

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J.G. Morgan****Cefndir:**

Ar 16 Mehefin, 2020 rhoddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, gan ddefnyddio pwerau brys, awdurdod i Gyngor y Fro ymrwmo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaeth Fflecsi Trafnidiaeth Cymru.

Mae gwasanaeth Fflecsi newydd Trafnidiaeth Cymru'n darparu gwasanaethau bysiau sy'n ymateb i alw gweithwyr allweddol sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i fynd nôl a blaen i'r gwaith ac yn sicrhau bod dinasyddion agored i niwed yn gallu cyrraedd siopau a chael gafael ar feddyginiaeth.

Mae Fflecsi yn galluogi dinasyddion i drefnu mewn amser go iawn fws i'w casglu mewn man o'u dewis gan bennu pen y daith hefyd. Caiff llwybrau bysus eu teilwra mewn amser go iawn, yn seiliedig ar alw dinasyddion. Mae hyn yn sicrhau y bydd gweithwyr allweddol yn gallu teithio i'r gwaith ar adeg sy'n cyd-fynd â phatrymau eu shifftiau ac yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon ar fysiau.

Bydd y gwasanaeth yn llenwi'r bwlch a adawyd gan gwmnïau bws masnachol sydd wedi lleihau o ran eu maint a'u capasiti. Gall dinasyddion drefnu bws i'w casglu drwy app symudol a rhagwelir y bydd hyd at 70% o ddinasyddion yn defnyddio'r dull hwn.

### **Cwestiwn:**

Allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pa bryd fydd y gwasanaeth Fflecsi yn debygol o gael ei gyflwyno ym Mro Morgannwg?

### **Ateb gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Roedd y defnydd yn yr achos hwn ar bwerau Brys y Prif Weithredwr yn gysylltiedig â COVID ac roedd ei angen i ariannu staff canolfan alwadau i gynorthwyo gydag archebion Fflecsi ar gyfer Llywodraeth Cymru. Er eglurder, defnyddiwyd y broses i alluogi'r tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid i ymrwmo i drefniant cytundebol gyda Trafnidiaeth Cymru, ar gyfer darparu gwasanaethau canolfan alwadau, i alluogi trigolion o ardaloedd Cymru lle'r oedd y gwasanaeth Fflecsi yn gweithredu, nad oeddent yn gallu defnyddio'r app symudol, i ddefnyddio'r ffôn i drefnu bws. Cafodd y swyddi ymdrin â galwadau eu hariannu gan Trafnidiaeth Cymru drwy'r contract. Llwyddodd ein tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid i greu'r gwasanaeth canolfan alwadau'n gyflym oherwydd y defnydd o blatfform technoleg Cysylltu Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

O ran y gwasanaeth hwn yn gweithredu ym Mro Morgannwg yn y dyfodol, cyfarfu ein swyddogion gyda Trafnidiaeth Cymru i drafod y Cynllun yn ôl ym mis Mehefin 2020. Ystyriodd y swyddogion Wasanaeth B3 (Maestref Gardd – Canol Tref y Barri – Tregatwg) a gefnogid yn ariannol, ar gyfer yr app ar ffurf 'Uber'.

Y cynnig oedd galluogi gwasanaethu pob rhan o'r Barri, gan gynnwys ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd neu â gwasanaethau cyfyngedig, gan y gwasanaeth diwygiedig hwn, a fyddai'n dod yn wasanaeth hyblyg ac ar alw, gan alluogi gofynion cadw pellter cymdeithasol ar fysiau i gael eu rheoli'n well.

Fodd bynnag, roedd angen i'r gweithredwr bws ymrwmo i'r cynnig hwn gan fod costau ychwanegol i'w talu am ddefnyddio'r feddalwedd ayyb (h.y. £100 y cerbyd yr wythnos / uchafswm cost o tua £10.5k os oedd 2 gerbyd i gael eu paratoi). Bryd hynny ac oherwydd sefyllfa COVID nid ystyriwyd ei fod yn ddichonadwy yn ariannol.

Dylid nodi ein bod eisoes yn cynnig ein gwasanaeth ffonio am fws ein hunain,

Greenlinks, er nad oes app ar ei gyfer mae'n gweithio yn yr un ffordd ond trwy alwadau ffôn.

Fel y mae ar hyn o bryd, ni chynigir cyflwyno cynllun Fflecsi yn y Fro ar hyn o bryd oherwydd:

- Llai o alw am wasanaethau bws;
- Yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau bws yn rheolaidd i'r nifer cyn COVID;
- Costau bysiau lleol a gefnogir yn cynyddu;
- Mae refeniw gweithredwyr yn isel o'i gymharu â'r cyfnod cyn COVID;
- Gwaith parhaus Trafnidiaeth Cymru / Llywodraeth Cymru sy'n mynd rhagddo sy'n edrych ar rwydwaith bysiau de-ddwyrain Cymru a;
- Papur gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio gwasanaethau bysiau (masnachfreinio grymus).

Fodd bynnag, bydd swyddogion yn parhau i adolygu'r mater hwn ac os bydd y sefyllfa'n newid, rhof wybod i'r Aelodau.

### **Atodol**

Nododd y Cynghorydd Morgan nad oedd wedi bod yn ymwybodol o'r fenter bws Fflecsi nes iddo weld bws yng Nghasnewydd a gofynnodd a fyddai'r Aelod Cabinet yn barod i gychwyn ar adolygiad o wasanaethau cyhoeddus yn ardaloedd gwledig y Sir, ond byddai hefyd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar y mater.

Nododd yr Aelod Cabinet y byddai hi'n hapus i drafod ymhellach neu i gwrdd â'r Cynghorydd Morgan, ond pwysleisiodd fodolaeth gwasanaeth bws Greenlinks y Cyngor a oedd yn darparu trafndiaeth gymunedol debyg a oedd yn gweithredu mewn rhannau gwledig o'r Fro, ac nad oedd y gwasanaeth yn annhebyg i'r gwasanaeth Fflecsi. Gofynnodd i bob Aelod hyrwyddo'r gwasanaeth a chodi ymwybyddiaeth ohono yn eu cymunedau eu hunain.

### **(ii) Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J.G. Morgan**

#### **Cefndir:**

Mewn cyfarfod Cabinet ar 28 Chwefror 2022 ystyriwyd sylw gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio yn ymwneud ag awgrym o Bolisi Ffyrdd Gwledig yn y Fro.

PENDERFYNWYD – BOD sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a sylwadau dilynol gan y Cynghorydd Morgan yn cael eu nodi a'u hystyried ymhellach gan y Weinyddiaeth nesaf yn rhan o bolisi rheoli traffig a diogelwch ffyrdd ar draws yr awdurdod a oedd yn gysylltiedig â'r terfyn cyflymder 20mya diofyn a chynlluniau ar gyfer mwy o gyfleoedd teithio llesol.

#### **Cwestiwn:**

Allwch chi gadarnhau bod y Cabinet presennol wedi dwyn y penderfyniad hwn yn ei flaen ac y bydd y polisi rheoli traffig a diogelwch ar y ffyrdd ar draws yr awdurdod

arfaethedig nawr yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth?

### **Ateb gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 12 Mehefin 2022 benderfyniad i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya diofyn yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae ein swyddogion yn gweithio'n galed i gynllunio a chyflawni'r prosiect hwn mewn pryd ar gyfer y dyddiad cyflwyno presennol ym mis Medi 2023. Mae hyn yn golygu bod adnoddau cyfyngedig i wneud unrhyw waith polisi traffig pellach ar raddfa fawr, ond yn ogystal byddai'n amhriodol i wneud y gwaith hwn cyn gweithredu'r prosiect 20mya diofyn parhaus, gan fod hyn yn cynnwys adolygu canllawiau amrywiol sy'n gysylltiedig â gosod terfynau cyflymder a fyddai'n rhan hanfodol o unrhyw bolisi o'r fath.

Mae cynllun manwl o gynigion Teithio Llesol ar gyfer Bro Morgannwg ac mae hwn i'w weld ar wefan y Cyngor y byddai hi'n annog pobl i edrych arno. Bydd y gwaith i ddatblygu polisi rheoli traffig a diogelwch ar y ffyrdd ar draws yr awdurdod yn dechrau yn dilyn gweithredu'r terfyn cyflymder 20mya diofyn.

Os oes unrhyw faterion penodol - p'un a yw'r rhain yn ymwneud â mater neu ardal leol benodol y mae gan y Cynghorydd Morgan bryderon yn eu cylch, byddaf yn fwy na pharod i edrych ar y materion hynny ymhellach trwy drafod gyda'r holl Aelodau hefyd pe byddent yn dymuno.

### **Atodol**

Gan gyfeirio at ei siom nad oedd unrhyw beth wedi ei ddatblygu, gofynnodd y Cynghorydd Morgan am gyfarfod gyda'r Aelod Cabinet i drafod y mater ymhellach.

Nododd yr Aelod Cabinet ei bod yn hapus i wneud hynny.

### **(iii) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Faint o bobl sy'n aros am gymorth gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd, a beth mae'r Cyngor yn ei wneud i leihau'r nifer hwnnw?

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd**

Mae pobl yn mynd at y Gwasanaethau Cymdeithasol am amryw o resymau. Mae'r cwestiwn yn eang iawn ac felly rwyf wedi ymdrechu i roi rhai manylion cyffredinol yn gyntaf ar gyfer Oedolion ac wedyn yn ail ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Os oes unrhyw beth penodol y mae gan y Cynghorydd Dr. Johnson bryderon yn ei gylch, efallai y gallaf ddelio ag ef mewn ymateb i gwestiwn atodol neu drwy drafodaeth bellach.

### **Asesu Oedolion:**

Yn y Gwasanaethau Oedolion, mae 99 o bobl yn y gymuned ar hyn o bryd yn aros am asesiad Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae 6 o bobl ychwanegol yn aros yn yr ysbyty am asesiad gan Weithiwr Cymdeithasol

Nid oes unrhyw achosion brys sy'n aros am asesiad, ond mae 24 yn aros i gael eu dyrannu ac mae 75 achos yn aros am fewnbwn Therapydd Galwedigaethol (mae'r rhain yn flaenoriaeth is). Y safon rydym yn ceisio ei chyflawni yw gwneud asesiad o fewn 12 wythnos.

### **Oedolion sy'n Aros am Wasanaeth:**

Mae 5 o bobl yn aros am leoliad cartref gofal (3 parhaol, 1 dros dro, 1 preswyl).

Mae 120 o bobl yn aros am ofal cartref fodd bynnag, mae ychydig dros 20 o'r rheiny'n derbyn y gofal hwnnw dros dro gan Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro sy'n arbenigo mewn darparu ailalluogi ac adsefydlu.

### **Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r darlun yma'n wahanol ac mae'r manylion y byddaf yn eu rhoi yn ymwneud â'r niferoedd sy'n aros i gael eu hasesu. Dyma'r sefyllfa ar 11/7/22:

- 10 o blant (mewn 9 teulu) yn aros am asesiad gan y Tîm Iechyd ac Anableddau Plant. Y disgwyl yw y bydd nifer o'r plant hyn yn cael asesiad o fewn wythnos.
- 39 o blant (mewn 28 teulu) yn aros am asesiad gan y Tîm Derbyn.

Mae'r rhestr o blant sy'n aros yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'r plant arni'n cael asesiad yn ôl yr angen.

### **Atodol**

Gan ddiolch i'r Aelod Cabinet am ei ymateb, gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson am eglurhad o ran bregusrwydd y farchnad a chapasiti gwasanaethau, gan nodi bod y rhain yn uchel ar gofrestr risg y Cyngor a gofynnodd a oedd materion staffio yn effeithio ar allu'r Cyngor i roi cymorth.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod saith unigolyn yn aros am asesiad a chadarnhaodd, o ran y Gwasanaethau Oedolion, fod llai na 100 o bobl yn aros am ofal yn eu cartrefi a dyma lle'r oedd yr Awdurdod yn ei chael hi'n arbennig o anodd bodloni anghenion yr unigolion hynny. O ganlyniad roedd y gwasanaeth yn cynnal asesiadau risg i'r unigolion hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu. Roedd yn arbennig o anodd rhoi gofal cartref mewn ardaloedd gwledig ac o ganlyniad roedd mentrau penodol ar waith i ddatblygu capasiti ychwanegol yng ngorllewin y Fro. Roedd y gofal cartref sydd ar gael a'r galw amdano'n cael eu monitro'n ofalus, a dros y tri mis blaenorol, roedd nifer cynyddol o becynnau wedi'u rhoi yn eu lle bob mis. Ym mis Ebrill, roedd hyn yn 108 o becynnau ac ym Mehefin yn 136. Ond roedd bwlch yn y capasiti ac roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi sawl mesur mewn lle i liniaru'r sefyllfa. Cytunodd i anfon manylion y mesurau hyn at y Cynghorydd Dr. Johnson ac Aelodau'r Cyngor.

#### **(iv) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Faint o dai Cyngor sydd wedi eu hadeiladu gan Gyngor Bro Morgannwg yn y

degawd diwethaf?

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid**

O ystyried yr argyfwng tai yn y wlad hon, heb sôn am ym Mro Morgannwg, yr ateb syml yw - dim digon!

Ond, y newyddion da yw i'r Cyngor ailddechrau ei raglen adeiladu tai ym mis Medi 2017, ac ers y dyddiad hwnnw, mae'r Cyngor wedi cwblhau 76 eiddo yn yr ardaloedd canlynol:

- Heol Francis, Y Barri – 3 uned
- Llys Llechwedd Jenner, Y Barri – 28 uned
- Clos Holm View, Y Barri, Cam 1 – 11 uned
- Court Road, Y Barri – 11 uned
- Lôn y Felin Wynt, Hayes Road, Y Barri – 23 uned

Mae 67 eiddo wrthi'n cael eu hadeiladu a dyma nhw:

- St Cyres Road, Penarth – 14 uned
- Hayeswood Road, Y Barri – 53 uned

Mae contract ar waith ar gyfer 32 eiddo ac rydym yn aros am ddyddiadau dechrau adeiladu ar gyfer:

- Coldbrook Road East, Y Barri – 20 uned
- Colcot Clinic, Y Barri – 12 uned

Aros am Benderfyniad Cynllunio, ond i fod i ddechrau yn 2022/23, ar 49 eiddo pellach yn y lleoliadau canlynol:

- Clos Holm View, Y Barri (Cam 2) – 31 uned
- Maes y Ffynnon, Tresimwn – 8 uned
- Olive Lodge, Y Barri (aros i gaffael) – 10 uned

Yn ogystal, mae gennym 346 o unedau ar hyn o bryd ar gynlluniau sydd ar y camau Dichonoldeb a Chyn Datblygu o 2023 ymlaen.

### **Atodol**

Gofynnodd y Cyngorydd Dr Johnson, o fod yn falch clywed bod y prosiectau'n cael eu cyflawni, i'r Aelod Cabinet a yw hi wedi ystyried, yng nghyd-destun nifer yr unedau iddi eu nodi yn ei hymateb, yr effaith y byddai chwyddiant a phroblemau yn y gadwyn gyflenwi sy'n effeithio ar y diwydiant adeiladu yn eu cael ar gyflawni'r rhaglen dros y blynyddoedd nesaf.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet gydnabod y bu trafferthion gyda chostau deunyddiau a phrisiau gan contractwyr a bod y Cyngor yn gweithio'n galed i liniaru'r pwysau hyn a nododd y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cyngorydd Dr Johnson.

**(v) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran datblygiad Model Farm?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol**

Diddymwyd caniatâd cynllunio ym mis Hydref 2021 pan gadarnhawyd cais am adolygiad barnwrol yn y Gorchymyn Llys a roddwyd gan HHJ Jarman QC. Mae'r cais cynllunio bellach yn ôl gyda'r Cyngor er mwyn iddo benderfynu arno. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus newydd ynglŷn â'r cais cynllunio ei gynnal yn gynharach yn y flwyddyn ac mae gwybodaeth dichonolrwydd ychwanegol hefyd wedi'i chyflwyno gan yr ymgeisydd y gallai'r cyhoedd wneud sylw yn ei gylch. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hystyried ar hyn o bryd gan arbenigwyr perthnasol ar ran y Cyngor.

Mae'r cais yn parhau i gael ei asesu a bydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried ar ôl i'r broses hon (gan gynnwys asesu'r wybodaeth ddichonolrwydd) gael ei chwblhau. Ond dylid nodi bod y cais hefyd ar hyn o bryd yn destun cyfarwyddyd atal gan Lywodraeth Cymru ac unwaith i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried y cais, bydd yn rhaid ei drosglwyddo'n ôl i Lywodraeth Cymru ar gyfer penderfyniad gwirioneddol.

Ni fydd y cais ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio ar 27 Mis Gorffennaf ac mae'n debyg y bydd yn dod yn ôl i'w ystyried yn yr hydref.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson am eglurhad ar y broses a'r penderfyniadau o ran pwy fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â rhoi caniatâd cynllunio.

Gan gyfeirio at y cyfarwyddiadau atal a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y byddai'r mater yn dod yn ôl at Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn y dyfodol agos i ystyried argymhellion y swyddogion. Ar ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried y mater, byddai'r cais yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Lywodraeth Cymru ar gyfer y penderfyniad terfynol.

**(vi) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Beth yw'r amserlen ar gyfer ysgol Gymraeg newydd yn y Bont-faen?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg**

Diolch am eich cwestiwn. Bydd angen proses ymgynghori statudol ar y cynnig i godi Ysgol Gymraeg newydd yn y Bont-faen. Y bwriad yw gwneud hyn ym mis Medi 2022, ac mae'n debygol y ceir y penderfyniad terfynol ar y cynnig addysg ym mis Mawrth 2023. Mae angen yr ymgynghoriad hwn er mwyn penderfynu pa fath o ysgol gynradd Gymraeg fyddai fwyaf priodol yn seiliedig ar yr ystyriaethau statudol a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.



Rhagwelir y bydd yr arian ar gyfer y prosiect yn rhan o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B estynedig. Bydd hyn yn dibynnu ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i ymestyn y rhaglen. Rhaid i brosiectau o fewn y rhaglen Band B gael eu cymeradwyo cyn 2024 a'u cwblhau erbyn 2026.

Yn seiliedig ar yr amserlen amcangyfrifedig bresennol, disgwylir y byddai'r achos busnes, y caniatâd cynllunio a'r caniatâd CCDC yn eu lle erbyn mis Medi 2023 er mwyn gallu dechrau ar y gwaith adeiladu. Byddai disgwyl i'r ysgol newydd agor ym mis Ionawr 2025 yn amodol ar beidio gweld unrhyw oedi wrth gael y caniatâd perthnasol.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg drafft y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd 2022 i 2032, yn nodi bod angen cwblhau'r ysgol newydd erbyn 2027. Dan y rhaglen bresennol, nod y Cyngor yw cwblhau'r ysgol newydd erbyn 2025. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar gael yr arian sydd ei angen a chanlyniad camau perthnasol y broses o wneud penderfyniadau.

### **Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson a oedd unrhyw wersi wedi'u dysgu o ddatblygiad Glannau'r Barri.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod gwersi wedi'u dysgu ac y byddai hi'n hapus i drafod y rhain ymhellach gyda'r Cynghorydd Dr Johnson.

#### **(vii) Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

O ystyried y newidiadau sydd ar ddod yn San Steffan, ac yn enwedig o wybod agenda bersonol Boris Johnson, a yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw risgiau newydd i'r cais am arian codi'r gwastad, a beth mae'r Cyngor yn ei wneud i liniaru risgiau o'r fath?

### **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae cwmpas Rownd 2 Codi'r Gwastad yn parhau heb newid ac nid yw newidiadau yn San Steffan wedi effeithio ar ddatblygiad ceisiadau. Roedd y Porthol i gyflwyno ceisiadau wedi agor a byddai cais y Cyngor yn cael ei gyflwyno'n fuan. Mae'r Cyngor wedi nodi bod hyn yn risg o ran amserlenni cyflawni ar gyfer gwaith cyfalaf pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo. Y gobaith yw y bydd y dyddiadau gorffen ar gyfer cyflawni neu'r ffenestr arfarnu yn cael eu diwygio gan Lywodraeth San Steffan er mwyn lliniaru yn erbyn yr oedi hwn ar ddechrau'r broses.

### **Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper i'r Arweinydd, gan gyfeirio at y gystadleuaeth bresennol i fod yn Brif Weinidog ac at yr addewidion ar drethiant a wnaed gan yr ymgeiswyr, y tybiai sylwebwyr economaidd y gallai hyn arwain at oblygiadau i arian codi'r gwastad ac arian ffyniant cyffredin yn y dyfodol, a fyddai hi'n ystyried adolygiad o'r risgiau.

Gan gyfeirio at waith cynllunio senarios Tîm y Prosiect, nododd yr Arweinydd eu bod ymhell ar y blaen o ran gweithio allan y goblygiadau posib, ond hyd nes y deuai eglurder o fewn y blaid Geidwadol, roedd yn achos o aros a gweld ac yna gweithredu'n unol â hynny.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave**

A allai'r Aelod Cabinet egluro'r meini prawf ar gyfer torri lleiniau ymyl y briffordd?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Mae meini prawf penodol ar gyfer gwahanol ardaloedd dynodedig i rwydwaith Lleiniau Ymyl y Briffordd ac mae manylion hyn fel a ganlyn:

Mae 150km o lôn gerbydau wedi'i ddynodi'n *Llwybrau Strategol* o fewn y briffordd fabwysiedig, torriri y rhain yn ystod mis Mai, mis Gorffennaf a mis Medi gydol y tymor tyfu i led cyfartalog o 3 metr.

Mae 655km o lôn gerbydau wedi'i ddynodi'n *Llwybrau Anstrategol* o fewn y briffordd fabwysiedig, torriri y rhain ar un achlysur i led cyfartalog o 1.2 metr wedi 3ydd Dydd Llun mis Gorffennaf i gynorthwyo defnyddwyr y lôn gerbydau ond hefyd i gynorthwyo lles ecolegol y lleiniau ymyl hyn.

Mae sawl llain welededd o fewn y rhwydwaith briffordd sydd angen cael eu torri ar ddechrau'r tymor tyfu i sicrhau gwelededd priodol wrth y cyffyrdd hyn. Byddai hyn fel arfer yn digwydd ym mis Mai, fodd bynnag o fewn ein contract mae gennym hefyd y gallu i dorri lleiniau gwelededd am yr eildro os oes angen.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Cave am esboniad gan yr Aelod Cabinet o ran pam fod contractwyr yn cael dewis pryd a ble y bydden nhw'n torri lleiniau glaswellt. Roedd ganddi bryder penodol nad oedd lleiniau gwelededd yn cael eu rheoli'n briodol.

Nododd yr Aelod Cabinet nad oedd ef yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol o ran cynnal a chadw lleiniau ymyl y briffordd ond rhoddodd sicrwydd y byddai'n ymchwilio i'r mater.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi ei gefnogaeth i'r Polisi Ffyrdd Gwledig?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Diolch am eich cwestiwn. Rwy'n ymwybodol yr ymatebwyd i'r mater hwn eisoes drwy gwestiynau'r Cyngor gan yr Aelod Cabinet blaenorol dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. Byddwn yn cytuno â'i ddatganiadau a'i safbwynt a nodwyd bryd hynny, fodd bynnag, er mwyn osgoi amheuaeth, fe wnaaf gadarnhau fel isod ar gyfer Aelodau newydd.

Mae rhwydwaith ffyrdd lleol y Cyngor yn cynnwys cymysgedd o ddsbarthiadau ffyrdd a ffyrdd di-ddosbarth o fewn y Fro wledig gan gynnwys lonydd gwledig. Fel gyda nifer sylweddol o ffyrdd trefol a gwledig ledled y Fro, ni chafodd y rhain eu cynllunio na'u hadeiladu i ddarparu ar gyfer y gymysgedd a'r swm presennol o draffig, cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr marchogol. Fodd bynnag, rhaid i bob ffordd gan gynnwys ffyrdd gwledig a lonydd gwledig, gario cyfansoddiad penodol o draffig i wasanaethu anghenion y boblogaeth leol o safbwynt busnes, gwaith a hamdden a dylai gyrwyr sy'n defnyddio'r ffyrdd hyn wneud hynny gyda gofal priodol a gan ystyried pobl eraill yn briodol. Derbynnir hefyd bod cynnydd cyffredinol yn y defnydd o'r holl ffyrdd at ddibenion amrywiol, ond mae hyn i'w weld ledled y Fro ac yn effeithio ar bob dosbarth neu ffordd yn wledig a threfol.

O ran materion diogelwch neu wrthdaro penodol sy'n codi ar hyd ffyrdd gwledig neu lonydd gwledig, ymchwilir i'r rhain a chaiff y rhain eu rheoli'n seiliedig ar ymchwiliad penodol a thystiolaeth a gafwyd yn yr un modd â ffyrdd trefol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i reoli ei rwydwaith priffyrdd cyffredinol yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol. Nid oes gofynion i'r Cyngor reoli lonydd gwledig na ffyrdd gwledig ar wahân neu mewn dull gwahanol i'w rwydwaith ffyrdd lleol arall ac nid oes dystiolaeth bod lonydd gwledig yn anniogel ar y cyfan, er bod cydnabyddiaeth bod ychydig yn fwy o gymysgedd o draffig ac amodau isadeiledd wrth reoli gwahanol elfennau a dosbarthiadau ffordd o fewn rhwydwaith ffyrdd lleol y Fro. Ymchwilir i broblemau ar unrhyw ffyrdd gwledig y rhoddir gwybod i'r Cyngor amdanynt ar sail y dystiolaeth a'r ymagwedd at risg yn yr un modd ag y caiff pob ffordd arall ei hasesu a'i rheoli.

O ganlyniad, ac yn seiliedig ar y safbwynt uchod, nid wyf o'r farn bod angen Polisi Ffyrdd Gwledig ar wahân gan fod diogelwch ac amodau traffig eisoes yn cael eu hystyried yn benodol i bob amgylchiad a rhan o ffordd yn seiliedig ar ymchwiliad a thystiolaeth, boed yn lôn wledig neu'n ffordd drefol brysur. I grynhoi, mae timau priffyrdd y Cyngor yn adolygu ac yn ystyried pryderon penodol ar ei rwydwaith gwledig yn yr un modd ag unrhyw ffordd arall o fewn rhwydwaith priffyrdd lleol y Fro ac ystyrir bod hyn yn ddigonol, yn rhesymol ac yn ffordd gymesur o ddelio â materion diogelwch a allai ddigwydd ar unrhyw adeg.

Yn olaf, ac fel y nodwyd yn un o fy ymatebion blaenorol, mewn cyfarfod Cabinet ar 28 Chwefror 2022, ystyriwyd sylw gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio yn ymwneud â Pholisi Ffyrdd Gwledig awgrymedig i'r Fro. Penderfynodd y Cabinet bryd hynny y dylai sylwadau y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a sylwadau dilynol gan y Cynghorydd Morgan gael eu nodi a'u hystyried ymhellach gan y Weinyddiaeth nesaf yn rhan o bolisi rheoli traffig a diogelwch ffyrdd ar draws yr awdurdod a oedd yn gysylltiedig â'r terfyn cyflymder 20mya diofyn.

Cytunaf gyda safbwynt yr Aelod Cabinet blaenorol ar y mater hwn ac fel rwyf wedi dweud, bydd y gwaith i ddatblygu polisi rheoli traffig a diogelwch ffyrdd ar draws yr awdurdod yn dechrau yn dilyn gweithredu'r terfyn cyflymder 20mya diofyn.

### **Atodol**

Gan ddiolch i'r Cynghorydd Morgan am ei gefnogaeth ac am ymgyrchu dros bolisi o'r

fath, gofynnodd y Cynghorydd Cave i'r Aelod Cabinet a fyddai hi'n derbyn gwahoddiad i ymweld â'i ward i edrych ar faterion nad oeddent wedi cael sylw gan ei rhagflaenydd yn y Cabinet.

Nododd yr Aelod Cabinet y byddai hi'n hapus i ymweld â ward y Cynghorydd Cave.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Pa gamau mae'r Cyngor yn eu cymryd wrth ymateb i effeithiau chwyddiant ar gyllidebau'r Awdurdod?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae pwysau chwyddiant yn effeithio ar holl gyllid y Cyngor, yn refeniw a chyfalaf.

O ran refeniw, mae'r Cyngor wedi'i ddiogelu i raddau helaeth rhag costau nwy/dŵr/trydan cynyddol ar ôl prynu ei nwy a'i drydan ymlaen llaw ond mae'n gweld pwysau'n dod drwodd gyda'r newidiadau i daliadau sefydlog. Mae trafodaethau'n parhau ar ddyfarniad cyflog 2022/23 ac mae'n edrych yn debygol na fydd y 3% a osodwyd i'r naill ochr yn ddigonol. Mae gwasanaethau yn rheoli eu cyllidebau'n dynn er mwyn sicrhau bod cyllid y Cyngor mor gadarn â phosib. Cynhelir sesiynau rheolaidd i drafod pwysau cyllidebol ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod adroddiadau monitro refeniw (a chyfalaf) rheolaidd yn cael eu dwyn gerbron y Cabinet (a phob Pwyllgor Craffu) fel y gellir monitro'r cyllidebau a lle bo angen, gymryd camau i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg.

Mae pwysau hefyd yn dod drwodd o ran Cyfalaf ac unwaith eto mae'r tîm cyllid yn gweithio gyda rheolwyr gwasanaethau i ddeall effaith prisiau cynyddol ar lefel cynlluniau. Yn rhan o'r gwaith hwn rydym yn gwirio cynnydd ar gynlluniau, boed gwaith ar y gweill, contractau wedi'u cytuno neu waith sydd allan dan dendr o hyd. Mae rheolwyr yn gorfod prasio cynlluniau peirianwyr i gadw ar amlenni costau y cytunwyd arnynt. Mewn achosion penodol, fel gyda phrosiectau allweddol sy'n cael eu hariannu trwy Lywodraeth Cymru (mae ysgolion yr 21ain ganrif yn enghraifft allweddol), cynhelir trafodaethau i ganfod a oes modd ystyried pwysau chwyddiant yn rhan o unrhyw ddyfarniadau.

Yn olaf, byddwch yn ymwybodol bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn penodol (refeniw a chyfalaf) sydd ar gael i'w defnyddio o ganlyniad i bwysau costau, gan gynnwys cynnydd mewn chwyddiant.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll a yw'r Arweinydd yn rhagweld tynnu ar y cronfeydd wrth gefn a beth fyddai'r swm hwn.

Dwedodd yr Arweinydd wrth y Cynghorydd Carroll fod hyn wedi'i osod ger bron mewn adroddiadau diweddar i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd yr adroddiadau hynny'n cyfeirio at gronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio ac a fyddai'n cael eu defnyddio

pe bai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol ac mai da o beth oedd hi fod y rhain gan y Cyngor.

(xi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A fydd yr Aelod Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i wella isadeiledd y briffordd ar Fryn Llandochau?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Diolch am eich cwestiwn, fodd bynnag, nid yw'n eglur pa wybodaeth yn union rydych am ei chael ynghylch isadeiledd y briffordd ar Fryn Llandochau. Gallaf gadarnhau fod Bryn Llandochau wedi ei chofnodi'n briffordd fabwysiedig a bod dyletswydd ar y Cyngor fel awdurdod priffyrdd lleol i'w chynnal ar draul y cyhoedd dan Adran 41 Deddf Priffyrdd 1980. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw isadeiledd arall ar Fryn Llandochau y gallech fod yn cyfeirio ato. Byddwn yn hapus i ymateb ymhellach pe gallech ymhelaethu.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll i'r Aelod Cabinet a fyddai'n cefnogi'r gwaith o roi wyneb newydd ar y ffordd.

Cynllun tair blynedd y Cyngor yn darparu dull lle roedd ffyrdd unigol yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu i gael wyneb newydd drwy ystyried sawl maen prawf penodol, a oedd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddsbarthiad y ffordd, costau cynnal a chadw parhaus, cwynion cwsmeriaid a hawliadau trydydd parti. Roedd y broses yn galluogi'r Cyngor i weithredu rhaglen flynyddol o waith ail osod wynebar sail blaenoriaeth er mwyn rheoli ei asedau priffyrdd yn y modd mwyaf cost-effeithiol a buddiol yn amodol ar yr arian sydd ar gael yn flynyddol ar gyfer gwaith o'r fath. Roedd y cynllun tair blynedd wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar a chafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ar 7 Gorffennaf 2022 ac i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 12 Gorffennaf 2022. Roedd agendâu a chofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael ar wefan y Cyngor.

Nodwyd yn yr adroddiad Cabinet hwnnw fod Bryn Llandochau wedi derbyn 195 o bwyntiau ar y Cynllun Ail Osod Wyneb Tair Blynedd a rhagwelwyd, yn seiliedig ar yr arian cyfredol sydd ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol, y byddai gwaith ail osod wyneb yn cael ei wneud ar ffyrdd â 210 o bwyntiau neu ragor. Felly roedd yn annhebygol y byddai'r ffordd yn cael wyneb newydd yn y flwyddyn ariannol bresennol, er y byddai'r sefyllfa yn cael ei hadolygu eto yn 2023.

(xii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.R. Thomas**

A fydd yr Arweinydd yn cadarnhau faint o geudyllau sydd wedi cael eu hadrodd i'r Cyngor yn nhref Penarth yn ystod y 12 mis diwethaf?

## **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Dywedir wrthyf fod 126 o ddiffygion ar lonydd cerbydau wedi'u hadrodd i'r Cyngor rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Mehefin 2022. Mae'r holl ddiffygion hyn a adroddwyd wedi'u harchwilio i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf ymyrraeth a osodwyd gan y Cyngor. Mae'r meini prawf ar gael ar wefan y Cyngor ac mae'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio hefyd wedi trafod hyn yn ddiweddar.

Yn ogystal, mae Arolygwyr Priffyrdd y Cyngor wedi codi tua 242 o ddiffygion ar lonydd cerbydau ym Mhenarth rhwng Gorffennaf 2021 a Mehefin 2022. Bydd rhai o'r diffygion hyn yn y 126 o ddiffygion a nodwyd uchod.

Er ein bod yn archwilio ein holl briffyrdd yn rheolaidd, fel y nodwyd, bydd diffygion yn ymddangos rhwng yr archwiliadau hyn. Rydym felly'n annog pob preswlydd i ddefnyddio'r nodwedd 'rhoi gwybod' ar ein gwefan os yw'n poeni am geudwll, neu fel arall i ffonio ein canolfan gyswllt gyda'r wybodaeth hon.

### **Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd R. Thomas, wrth gyfeirio at adroddiad y Cyngor a nodai ond un ffordd a oedd ag angen wyneb newydd, rhywbeth yr oedd yn siomedig yn ei gylch, pam fod trigolion Penarth yn isel ar restr flaenoriaethau'r Cyngor a gwahoddodd hi i ymweld â'r ward gydag ef i gerdded a siarad gyda'r trigolion ar y mater.

Nododd yr Arweinydd ei bod yn cerdded ac yn beicio o amgylch ward Plymouth yn rheolaidd am nifer o resymau a'i bod, wrth ymweld â'r ward yn ddiweddar, wedi nodi dim ond tri cheudwll a oedd eisoes wedi'u hasesu i'w hatgyweirio ac ers hynny roedd y gwaith wedi'i wneud. Atgoffodd hi'r Cynghorydd Thomas ei bod yn rhoi gwybod am geudyllau i'w trwsio yn rheolaidd a dywedodd y gallai hi nodi o e-byst a gadwyd ganddi er gwybodaeth ei bod wedi rhoi gwybod am nifer o ddiffygion ar ffyrdd ar draws Penarth yn 2017 a 2018. Yn 2019 roedd hi wedi adrodd 132 o ddiffygion ac roedd un ffordd yr oedd wedi rhoi gwybod bod ceudyllau arni wedi cael wyneb newydd ers hynny. Yn 2020 roedd hi wedi rhoi gwybod am 5 diffyg ac yn 2021 roedd hi wedi rhoi gwybod am 47 o ddiffygion pellach ar draws gwahanol leoliadau ym Mhenarth. Tynnodd sylw'r Cynghorydd Thomas hefyd at y ffaith ei bod hi hefyd wedi cymryd yr amser i roi gwybod am finiau stryd a oedd angen eu gwagio, goleuadau stryd nad oeddent yn gweithio a graffiti. Nid yn unig roedd hi'n llais i'r gymuned yn y Cyngor ond yn Gynghorydd effeithiol hefyd. Atgoffodd hi'r Cynghorydd Thomas hefyd o'r nodwedd rhoi gwybod ar wefan y Cyngor gan awgrymu ei fod yn cerdded o amgylch ei ward ac yn rhoi gwybod am unrhyw geudyllau nad oedd amheuaeth ganddi y byddent yn cael eu hatgyweirio pe baen nhw'n bodloni meini prawf atgyweirio'r Cyngor.

### **(xiii) Cwestiwn gan y Cynghorydd G. Bruce**

Pam nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau i sicrhau bod darpariaeth trafndiaeth ysgol ddigonol yn cael ei rhoi ar waith i ddisgyblion sy'n teithio o Ysgol Gynradd y Rhws i Ysgol Gyfun y Bont-faen yn dilyn newidiadau dalgylch i ddiogelu parhad

addysg disgyblion sy'n mynychu'r Bont-faen?

### **Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Darperir trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion oed uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol ddalgylch.

Darperir trafndiaeth i unrhyw ddisgybl sy'n gymwys naill ai ar sail pellter neu am nad oes llwybr cerdded i'r ysgol ar gael iddo, os yw'n mynychu ei ysgol ddalgylch.

Dyma safbwynt yr Awdurdod ac mae'n rhan o'r polisi trafndiaeth ysgol a choleg sydd i'w weld ar wefan y Cyngor.

Bydd disgyblion sy'n symud o Ysgol Gynradd y Rhws i Ysgol Gyfun y Bont-faen ym mis Medi 2022 yn cael trafndiaeth ysgol am ddim, cyn belled â'u bod yn byw yn y dalgylch. Gall rhieni wneud cais i unrhyw ysgol y maen nhw'n dymuno, ond fel sy'n cael ei amlinellu yn y Polisi os nad ydynt yn dewis yr ysgol ddalgylch, bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am drafndiaeth.

Newidiwyd dalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen, a oedd yn cynnwys symud y Rhws i'r dalgylch, yn raddol, fel ag y gwnaed gyda newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion eraill.

Rhodddwyd y newid ar waith ar gyfer Blwyddyn 7 ym mis Medi 2021 a chaiff ei weithredu ar gyfer Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mis Medi 2022.

Nid yw'r Cyngor yn newid y dalgylch ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar yr un pryd. Pe bai hynny'n digwydd, yn yr achos arbennig yma, yna byddai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac sy'n byw yn y Rhws i gyd allan o'r dalgylch a ddim yn gymwys i gael trafndiaeth ysgol am ddim. Byddai hynny'n effeithio ar tua 230 o ddisgyblion sy'n byw yn ardal y Rhws ac a ddewisodd fynychu yn fwriadol bryd hynny eu hysgol ddalgylch sef Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol ac yn parhau i ddarparu trafndiaeth i ddisgyblion sy'n mynychu eu hysgol ddalgylch.

Rwy'n ymwybodol o faterion a godwyd o ran costau'r bws preifat sy'n rhedeg o'r Rhws i Ysgol Gyfun y Bont-faen sydd yn rhannol oherwydd diffyg disgyblion nad oes angen iddynt brynu seddi ar y bws hwn gan eu bod bellach yn teithio am ddim ar fws ysgol sydd wedi cael ei gontractio gan y Cyngor. Ond cyfeiriaf at fws preifat arall a oedd yn rhedeg o ardal Trelái yng Nghaerdydd i Ysgol Gyfun y Bont-faen y penderfynodd gweithredwr arall ei ganslo ddechrau eleni. Nid diffyg teithwyr oedd yn gyfrifol am hyn, roedd yn benderfyniad a wnaed gan y gweithredwr am resymau busnes. Nid oes gan y Cyngor reolaeth dros rediad gwasanaethau preifat ac o'r herwydd gall gweithredwyr wneud penderfyniadau ar brisiau teithio, p'un a ydynt yn rhedeg gwasanaeth neu'r llwybr y gallai'r bws ei deithio heb ymgynghori.

### (xiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

A fydd yr Aelod Cabinet yn nodi'r baich treth ychwanegol ar Gyngor Bro Morgannwg o ran y cynnydd arfaethedig mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) gan

Lywodraeth San Steffan?

### **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cyfrifwyd effaith uniongyrchol y cynnydd mewn YG yn 2022/23 fel rhan o' cynigion Cyllideb i fod yn £1.034m – mae'r ffigur hwn yn cynnwys pob ysgol.

O ran yr effaith anuniongyrchol sydd ar ddarparwyr gofal cymdeithasol er enghraifft - nid ydym wedi gallu rhoi ffigur ar hyn gan nad oes gennym ddigon o fanylion am gyflog ein cyflenwyr a byddai'r cynnydd i Ddarparwyr Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2022/23 yn adlewyrchu cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol ac effeithiau chwyddiannol eraill fel costau ynni.

### **Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Franks am sicrwydd gan yr Arweinydd y byddai'r holl wasanaethau rheng flaen yn cael eu diogelu yn wyneb cynnydd mewn cyfraniadau YG.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith bod y cynnydd wedi'i gyllidebu'n rhan o broses pennu cyllideb y Cyngor a chyfeiriodd at oddeutu £1m o gostau ychwanegol oedd wedi'u eu cyfrifo. Nododd y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ddiffyg o £24m a bod y Cyngor wedi cael setliad cyllidebol da gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni wyddai hi beth fyddai'r setliad ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, ond roedd yn annhebygol y byddai ar yr un lefel. Gan gyfeirio at y broses o bennu'r gyllideb i ddod y byddai'r Cyngor yn ei chynnal, byddai angen ystyried nifer o heriau ariannol ychwanegol a chyfeiriodd hi'n benodol at brisiau ynni a phwysau chwyddiant. Byddai hi'n gwneud popeth o fewn ei gallu i ddiogelu gwasanaethau gan ddechrau gyda'r rhai mwyaf agored i niwed.

### **(xv) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Bydd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o bryderon cynyddol yn Ninas Powys ynglŷn â diogelwch ar y ffyrdd. A wnewch chi nodi pa fesurau sy'n cael eu gweithredu i wneud ein strydoedd yn fwy diogel?

### **Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Diolch am eich cwestiwn, fodd bynnag, nodaf nad ydych yn rhoi unrhyw fanylion penodol sy'n ymwneud â'ch pryderon diogelwch ar y ffyrdd ac felly mae'n anodd i mi ymateb yn benodol.

Mae'r Cyngor yn derbyn nifer o bryderon ynghylch amrywiaeth o agweddau ar ddiogelwch ar y ffyrdd ledled y Fro ac yn ymchwilio i'r pryderon hynny fel sy'n briodol a chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol o ystyried yr adnoddau presennol sydd ar gael ynghyd â'i bwerau a'i gyfrifoldebau presennol.

Byddwn yn egluro yn gyntaf bod gan y Cyngor fel awdurdod priffyrdd lleol ddyletswydd statudol dan Adran 39 Deddf Traffig Ffyrdd 1988 i gynnal astudiaethau i



wrthdrawiadau traffig ffyrdd, ac i gymryd camau i'w lleihau a'u hatal cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn briodol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cyngor yn adolygu data gwrthdrawiadau a roddir gan Lywodraeth Cymru bob chwe mis sy'n ymwneud â gwrthdrawiadau'n cynnwys anafiadau sydd wedi digwydd yn rhwydwaith priffyrdd lleol y Fro ac yn ystyried y dystiolaeth a'r ffactorau cyfrannol posibl sy'n gysylltiedig â'r gwrthdrawiadau hynny. Pan fo gofyn, yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn ac achos posib unrhyw wrthdrawiad, bydd y Cyngor yn ystyried cynlluniau i wella diogelwch ar y ffyrdd yn amodol ar yr arian sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys Dinas Powys, fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdrawiad difrifol yn cynnwys anafiadau o fewn y pentref sy'n gofyn ei ystyried yn benodol ac ar unwaith ar hyn o bryd.

Yn aml iawn mae dryswch ynghylch cyfrifoldebau o ran materion diogelwch ar y priffyrdd a materion yn ymwneud â chyflymder.

Er mai'r Cyngor sy'n gosod terfynau cyflymder, yr Heddlu sy'n bennaf gyfrifol am orfodi cyfyngiadau cyflymder ac nid oes gan y Cyngor bwerau i ddelio â throeddau goryrru. Am y rheswm hwn, rydym yn argymhell y dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n pryderu am broblemau goryrru yn eu hardal leol gysylltu â Heddlu De Cymru yn y lle cyntaf. Neu, gall trigolion wneud cais am gael camerâu cyflymder yn uniongyrchol i GanBwyll, Partneriaeth Lleihau Damweiniau Cymru, a'i phrif swyddogaeth yw gwneud ffyrdd Cymru yn fwy diogel drwy leihau anafiadau ar y ffyrdd. Fodd bynnag, yn gyffredinol bydd y Cyngor, yr Heddlu a GanBwyll yn argymhell wrth drigolion i ystyried sefydlu cynllun gwyllo cyflymder cymunedol sydd wedi dangos ei fod yn helpu atal goryrru mewn ardaloedd lleol ledled Cymru ac y mae llawer o enghreifftiau o'r rhain ledled y Fro. Gellir dod o hyd i fanylion ar wefan GanBwyll.

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle ceir hanes sylweddol o wrthdrawiadau'n cynnwys anafiadau personol, a phan fo gweithredu gan yr heddlu a/neu GanBwyll wedi methu â lleihau troeddau goryrru a gwella diogelwch ar y ffyrdd, bydd y Cyngor yn ystyried cyflwyno mesurau pellach i gynorthwyo gyda gorfodi cyflymder fel mesurau arafu traffig. Mae mesurau o'r fath yn ddrud i'w cyflwyno a lle ystyrir bod angen mesurau pellach, yna mae'r cynlluniau hynny'n cystadlu am arian grant cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru, lle mae'r lleoliadau mwyaf difrifol sy'n cael arian gan amlaf, os nad bob tro. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wedi cronni nifer sylweddol o gynlluniau sy'n aros am arian yn y dyfodol.

Yn olaf, byddwch hefyd yn ymwybodol o gynnis Llywodraeth Cymru ar gyfer terfynau gyrru 20mya yng Nghymru yn dilyn y cyngor gan Bennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth a gyhoeddwyd ar 12 Gorffennaf 2022. Pleidleisiodd y Senedd hefyd ar y cynnis i ostwng y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig a strydoedd preswyl gan ei gymeradwyo ar 12 Gorffennaf 2022. Ar hyn o bryd mae swyddogion y Cyngor yn gweithio drwy ofynion y ddeddfwriaeth i ddeall y goblygiadau o fewn y Fro a pha ffyrdd fydd yn cael eu heffeithio ar ôl cymryd rhan yn llwyddiannus yn un o wyth cynllun peilot Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyflymder diofyn 20mya yn Saint-y-brid. Mae disgwyl i'r terfyn cyflymder diofyn gael ei weithredu ym Medi 2023, a gobeithio yr aiff y mesur hwn i'r afael â phryderon diogelwch ar y ffyrdd parhaus yn ymwneud â chyflymder nid yn unig yn Dinas Powys ond ar hyd a lled y Fro lle mae'r terfyn i'w weithredu. Rwy'n rhagweld y bydd modd i'r Cyngor roi mwy o fanylion am y goblygiadau ar gyfer ardaloedd unigol yn Hydref

2022.

### **Atodol**

Gan gyfeirio at y buddsoddiad, plismona a'r orfodaeth angenrheidiol a'r diffyg cynlluniau diogelwch gan gynnwys cynllun camerâu diogelwch yn Ninas Powys yr oedd gwirfoddolwyr yn hapus i'w gefnogi pe baent yn cael yr offer, gofynnodd y Cyngorydd Franks i'r Aelod Cabinet beth oedd hi'n mynd i'w wneud am hyn.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at ei hymateb cychwynnol gan atgoffa'r Cyngorydd Franks y byddai'r mesurau hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a gododd. Roedd y Cyngor yn cymryd camau o ddifri i fynd i'r afael â diogelwch ar y ffyrdd gan atgoffa'r Cyngorydd Franks fod gan yr Heddlu rôl bwysig i'w chwarae yn y mater hefyd.

### **(vxi) Cwestiwn gan y Cyngorydd C.P. Franks**

Os bydd llifogydd yn effeithio'n ddifrifol ar eiddo preswyl a masnachol, pa gynlluniau sy'n bodoli i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed?

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Mae Uned Diogelu Sifil y Cyngor (UDS) yn gweithredu system swyddogion ar ddyletswydd 24/7 365 i ymateb i argyfyngau. Mae'r UDS yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i ymateb ac os bydd angen, bydd yn agor ystafell reoli argyfwng, yn yr Alpau yng Ngwenfô fel arfer. Os bydd argyfwng llifogydd, bydd y swyddogion yn cysylltu â Thîm Dyletswydd Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol i ganfod a oes unrhyw drigolion agored i niwed hysbys o fewn yr ardal, ond dylid nodi mai dim ond os ydynt yn gleientiaid i'r gwasanaethau cymdeithasol y byddent yn cael eu nodi.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar system o'r enw **JIGSO** sef gwasanaeth ar y we sy'n galluogi'r defnyddiwr i chwilio ardal benodol o fap a nodi'r eiddo lle ceir dinasyddion agored i niwed a all fod angen cymorth yn ystod argyfwng fel llifogydd/eira neu efallai ardal y mae mwg yn effeithio arni. Er enghraifft, gall y defnyddiwr dynnu cylch/polygon o amgylch ardal ac o fewn munudau, gall nodi pa aelwydydd sydd angen cymorth. Bydd hyn yn galluogi dinasyddion sy'n agored i niwed i gael cymorth blaenoriaeth i baratoi ar gyfer digwyddiad ac i gael cymorth ychwanegol o ganlyniad i ddiwyddiad e.e. poteli dŵr, neu gymorth i adael yr adeilad os oes angen.

Yn achos Storm Bella yn 2020, cymerodd beth amser i gael data ynglŷn â pha eiddo oedd angen cymorth, ond gyda JIGSO, gellir cael y wybodaeth hon mewn ychydig funudau. Gellir newid y mapiau hefyd h.y. map du a gwyn sy'n dangos amlinelliadau'n unig neu efallai gellir dewis map lloeren (tebyg i Google Earth ond yn fanylach).

Mae'r system, sy'n unigryw i'r Deyrnas Gyfunol, bellach yn golygu bod data bellach ar gael o fewn munudau sy'n manylu ar y dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau fel y gallant gael cymorth pan geir digwyddiad.

Yn ogystal, mae'r UDS wedi cynhyrchu Canllawiau Cynllun Llifogydd Cymunedol a Thywydd Eithafol newydd, sy'n egluro sut i baratoi Cynllun Llifogydd Cymunedol. Gall aelwydydd gwblhau'r cynllun hwn a gellir ei gwblhau fel cymuned neu grŵp llifogydd. Gall hyn helpu cymunedau i ddatblygu cynlluniau lefel lleol a fydd yn cynorthwyo cymunedau a grwpiau lleol i nodi a pharatoi cynlluniau ar gyfer unrhyw drigolion agored i niwed yn eu cymuned leol a allai fod angen cymorth ychwanegol. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar wefan y Cyngor lle byddwch hefyd yn dod o hyd i wybodaeth ac arweiniad pellach, i drigolion a busnesau, ar yr hyn i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.

### **Atodol**

Gan gyfeirio at y llifogydd diweddar yn Ninas Powys, gofynnodd y Cyngorydd Franks i'r Aelod Cabinet a fyddai ef yn ailystyried lefel y cymorth gan y Cyngor yn y dyfodol i drigolion sy'n agored i niwed.

Gan anghytuno ag asesiad y Cyngorydd Franks o'r cymorth a roddwyd gan y Cyngor yn ystod y llifogydd diweddar wedi gweld adroddiadau cysylltiedig, ei farn ef oedd bod swyddogion wedi gweithio'n galed i helpu trigolion a effeithiwyd.

#### **(xvii) Cwestiwn gan y Cyngorydd J.E. Charles**

A fydd yr Aelod Cabinet yn amlinellu targedau ailgylchu gwastraff y Cyngor ac yn cadarnhau os yw'r rhain yn cael eu cyrraedd.

#### **Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Y targed ailgylchu mesuredig diwethaf a'r targed adfer gofynnol i awdurdod lleol (ailgylchu, paratoi at aildddefnyddio a chompostio) oedd 64% (2019 / 2020).

Bu'n rhaid i'r Cyngor gyflawni cyfradd ailgylchu o 64% o fewn y targed yn y flwyddyn honno ac ar ôl hynny hyd at 2023 / 2024. Yn ystod blwyddyn darged 2019 / 2020, cofnododd y Cyngor gyfradd ailgylchu o 70.3% sy'n fwy na'r targed statudol.

Y targed mesuredig nesaf fydd 70% erbyn 2024 / 2025. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i ragori ar y targedau statudol ac ar hyn o bryd yr ail Gyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru ac mae ar y trywydd iawn o ran bwrw'r targed 2024 / 2025 a rhagori arno.

### **Atodol**

Gan gyfeirio at yr argyfyngau presennol, gofynnodd y Cyngorydd Charles a fyddai'r Cyngor yn gwneud mwy o arbedion o gynyddu cyfraddau ailgylchu ac aildddefnyddio.

Nododd yr Aelod Cabinet fod gan y Cyngor gynlluniau i wneud hyn a chyfeiriodd at yr orsaf drosglwyddo gwastraff newydd yn y Bont-faen gyda chyfleuster pellach i'w ddarparu yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, y Barri.

**(xviii) Cwestiwn gan y Cyngorydd C.E.A. Champion**

A fydd yr Aelod Cabinet yn ystyried cynyddu nifer y biniau gwastraff ac ailgylchu wedi'u gwahanu yn y manau cyhoeddus ar draws y Fro?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Nid oes cynlluniau ar unwaith i ddarparu biniau ailgylchu wedi'u gwahanu ar gyfer sbwriel trefol a gwledig gan i dreialon blaenorol effeithio ar ansawdd ailgylchu a chynyddu lefelau halogi oherwydd cydymffurfiaeth wael gan ddefnyddwyr gyda'r gwahanol adrannau ailgylchu ar wahân.

Ond pan fydd gorsaf ailgylchu newydd y Cyngor yn agor y flwyddyn nesaf, bydd mwy o hyblygrwydd o ran gwasanaethau ar gyfer treialon pellach a gobeithio y bydd gwell cydymffurfiaeth oherwydd bod mwy o ymwybyddiaeth nawr ymhlith trigolion ac ymwelwyr o'r angen i ailgylchu'r holl wastraff yn effeithiol. Byddwn felly yn bwriadu gwneud gwaith pellach yn y maes hwn yn ystod 2023.

**Atodol**

Gofynnodd y Cyngorydd Champion pam nad oedd gan y Cyngor finiau ailgylchu wedi'u gwahanu fel cynghorau eraill.

Mewn ymateb, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet y Cyngorydd Champion at ei ateb gwreiddiol am y rhesymau.

## 193 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010.

**(i) Cwestiwn gan Mrs. Sian Woodfield**

Pam mae carthion yn cael eu gollwng i'r môr ym Mae'r Tŵr Gwyllo? Mae'r Cyngor wedi derbyn ac yn parhau i dderbyn refeniw ychwanegol gan adeiladwyr tai a thrigolion newydd drwy dreth y pen. Rhaid bod y gorsafoedd trin carthion wedi cael eu huwchraddio i ymdopi â'r datblygiadau tai newydd. Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i gywiro'r sefyllfa gwbl annerbyniol yma? Mae hyn nid yn unig yn fudr ond mae grŵp mawr o nofwyr dŵr agored a phobl chwaraeon dŵr / padlo eraill sy'n defnyddio ein bae hardd yn rheolaidd at ddibenion hamdden a hyrwyddo iechyd meddwl da.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Diolch am eich cwestiwn Mrs. Woodfield. Nid oes gan y Cyngor awdurdodaeth ynghylch gweithredu gorsafoedd trin carthion / gorsafoedd pwmpio carthion o fewn cyffiniau Bae'r Tŵr Gwyllo. Dŵr Cymru (DC) sy'n gyfrifol am hyn, ac mae eu gweithrediadau'n cael eu rheoleiddio gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), dan Drwyddedau Amgylcheddol sy'n nodi cyfyngiadau penodol ar ollyngiadau

amgylcheddol penodol. Bydd achlysuron lle gall gollyngiadau heb eu cynllunio o'r gollyngfeydd carthffosydd cyfun ddigwydd ac mae CNC yn ymchwilio i ollyngiadau o'r fath, ac yn dibynnu ar y rhesymau dros y tramgwydd, gall camau gorfodi ddilyn. mae ymchwiliad yn mynd rhagddo i ddigwyddiad diweddar ym mis Mai ac rydym wedi cael gwybod bod y gollyngiad wedi digwydd o ganlyniad i fater cyflenwi pŵer yn un o orsafoedd pwmpio carthion DC.

Mae'r Cyngor yn deall bod DC wrthi'n asesu buddsoddiad yn y dyfodol i uwchraddio Gorsaf Pwmpio Carthion Tref y Barri i sicrhau bod gollyngiadau yn y dyfodol yn cael eu hatal, ac felly'n cynorthwyo i wella ansawdd y dŵr ym Mae'r Tŵr Gwyllo.

Er nad y Cyngor sy'n gyfrifol am weithredu gorsafoedd pwmpio, rydym hefyd yn bryderus iawn am effaith gollyngiadau mewn ardal sy'n cael ei defnyddio'n rheolaidd ac yn gynyddol ar gyfer ymdrochi. O ganlyniad, mae swyddogion Gwasanaethau Rheoleiddio a Renni'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr dŵr lleol i gasglu gwybodaeth / tystiolaeth briodol er mwyn gallu gwneud cais i Lywodraeth Cymru i ystyried dynodi Bae'r Tŵr Gwyllo yn draeth dŵr ymdrochi. Byddai cais llwyddiannus yn sicrhau bod CNC yn parhau i fonitro ansawdd y dŵr yn ystod y tymor ymdrochi.

(ii) **Cwestiwn gan Ms Sue White**

Dywed Llywodraeth Cymru fod yn rhaid i chi ddefnyddio deunyddiau athraidd neu fandyllog os ydych yn bwriadu gosod neu adnewyddu arwyneb caled o flaen eich tŷ; neu, rhaid cyfeirio dŵr wyneb ffo o arwyneb caled anathraidd, fel concrit, at arwyneb athraidd neu fandyllog o flaen eich cartref. Gallwch ddisodli neu atgyweirio ardal fechan, hyd at 5 metr sgwâr, o arwyneb caled heb ddefnyddio deunyddiau athraidd neu fandyllog – er enghraifft i drwsio ceudyllau mewn tramwyfa, neu adnewyddu slabiau palmant mewn patio. A allwch chi ddisgrifio sut mae'r dyfarniad hwn yn cael ei hysbysebu ym Mro ym Morgannwg? A allwch chi hefyd ddweud a yw'r dyfarniad hwn yn cael ei gymhwyso wrth ystyried ceisiadau cynllunio newydd ac a yw'n cael ei orfodi? Cydnabyddir bod disodli gerddi gydag arwynebau caled yn cyfrannu at y cynnydd mewn dŵr wyneb ffo sy'n cynyddu'r gofynion ar y system garthffosiaeth sy'n arwain at ollwng carthion i draethau'r Barri ar adegau o law trwm. Mae'r mater hwn yn peri pryder difrifol i'r nifer cynyddol o bobl sy'n defnyddio traethau lleol. Mae cynrychiolwyr grwpiau gan gynnwys nofwyr dŵr oer a byrddau padlo wedi ffurfio grŵp ymgyrchu o'r enw 'Sea Users Against Sewage' i bwysu am weithredu ar y mater.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol**

Mae'r gofyniad i ddefnyddio deunyddiau athraidd neu i gyfeirio dŵr ffo i ardal athraidd i'w weld yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredin a Ganiateir) 1995, rhaid bodloni'r gofyniad hwn er mwyn i arwyneb caled newydd fod yn 'ddatblygiad a ganiateir' (datblygiad nad oes angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer). Pan fydd arwyneb caled newydd yn rhan o ddatblygiad mwy sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio, mewn sawl achos bydd y Cyngor yn gosod amod i'w gwneud yn ofynnol i'r ardal newydd o arwyneb caled gydymffurfio â'r meini prawf hyn.

Fodd bynnag, rhaid asesu pob datblygiad yn ôl ei rinweddau ei hun a rhoi sylw i fanylion pob achos. Am y rheswm hwn, ni all y Cyngor gymryd agwedd gyffredinol y bydd unrhyw enghreifftiau nad ydynt yn cydymffurfio yn awtomatig yn destun camau gorfodi a rhaid ystyried buddioldeb gwneud hynny ar gyfer pob achos unigol.

Os oes amodau cynllunio sy'n gofyn am arwynebau athraidd ac os adroddir bod yr amod hwn wedi'i dorri, bydd tîm Gorfodi Cynllunio'r Cyngor yn ymchwilio i'r mater a gall camau gorfodi ffurfiol ddilyn os nad yw'r mater yn cael ei unioni.

(iii) **Cwestiwn gan Mrs. Lynfa Davies**

Beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r "angen" i ryddhau carthffrydiau i'n hafonydd a'n traethau ymdrochi? A oes unrhyw beth yn cael sylw o ran trin dŵr ar ystadau tai newydd? A fydd yn anochel yn effeithio ar ein gorsafoedd trin sydd eisoes yn gweithio i'w heithaf... Mae'n anghredadwy ein bod ni (y bobl sydd â grym) yn dal i lenwi ein dyfrffyrdd a'n harfordiroedd gyda charthion amrwd... yn enwedig gyda chynnydd mewn nofio, syrffio a chwaraeon dŵr eraill gydol y flwyddyn.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Diolch am eich cwestiwn, Mrs. Davies. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio ansawdd dŵr a chaniatáu gorlifant stormydd DC o'r rhwydwaith carthffosydd budr.

Mae angen i ddatblygiadau tai newydd yng Nghymru gydymffurfio â safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau) gyda hierarchaeth gollwng sydd o blaid ailddefnyddio, hidlo neu ollwng dŵr wyneb i gyrsiau dŵr lleol cyn yr ystyrir gwaredu i rwydwaith carthffosiaeth neu rwydwaith cyfun DC. Mae'r safonau SDCau yn gofyn am rwydweithiau draenio dŵr wyneb a dŵr budr ar wahân ar y safle, a dim ond pe bai pob dewis arall posibl wedi'i ddihysbyddu yn llawn fyddai gwaredu dŵr wyneb i garthffos gyfun yn cael ei dderbyn.

Byddai unrhyw ddŵr wyneb o stormydd sy'n llifo i rwydwaith cyfun DC yn cael ei reoli i lif a gytunir gan DC, gyda storfa ddŵr wyneb ychwanegol ar y safle i ddal dŵr dros dro. Mae'r senario hon yn fwyaf tebygol o ddigwydd ar ddatblygiadau mewnlenwi llai mewn ardaloedd trefol a wasanaethir gan rwydweithiau carthffosydd cyfun hŷn sy'n cario carthffosiaeth a dŵr glaw ar y cyd.

Mae'r safonau SDCau hefyd yn gofyn am drin dŵr wyneb ffo gan ddibynnu ar ddefnydd arfaethedig unrhyw ddatblygiad i ddiogelu cyrff dŵr sy'n derbyn. Mae gan ddatblygiad newydd y potensial i roi mwy o bwysau ar rwydwaith presennol DC ac ymgynghorir ar ddatblygiadau sy'n cysylltu llifoedd budr ychwanegol drwy'r broses gynllunio tra ymgynghorir ar gysylltiadau dŵr wyneb a'u rheoli drwy'r broses gymeradwyo SDCau. Ar hyn o bryd mae DC yn datblygu Cynllun Draenio a Dŵr Gwastraff a fydd yn ystyried heriau allweddol twf poblogaeth, ymgripiad trefol a newid yn yr hinsawdd ar eu rhwydwaith.

(iv) **Cwestiwn gan Mr. Tim McKinney**

Yn barchus, a allwn weld dychweliad marchnad awyr agored ar ddydd Mawrth yn

Sgwâr y Brenin, y Barri? Gwelsom ni yn y gymuned ei bod yn gaffaeliad mawr.

### **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Roedd y Cyngor yn siomedig o glywed bod gweithredwr y farchnad wythnosol wedi dewis cau'r farchnad wythnosol ond yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad gan fod hwn wedi bod yn gyfnod economaidd heriol i ganol trefi. Bydd gwahoddiad newydd i dendro'n dechrau ym mis Gorffennaf sy'n bwriadu ehangu cwrpas y cyfleoedd yn Sgwâr y Brenin ac o'i amgylch ar gyfer unrhyw weithredwr.

#### **(v) Cwestiwn gan Mrs. Andrea Lane**

Beth sy'n cael ei wneud i'r gofynion o ran gosod y cyrbau isel ac ail-asesu'r cyrbau isel?

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau**

Mae cyrbau isel yn y bôn yn droedffyrdd sydd wedi'u gostwng i lefel y ffordd neu'r lôn gerbydau ac yn y bôn mae dau fath; y rheiny ar gyfer cerddwyr, cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio sy'n aml yn cael eu gosod gan ddefnyddio arwynebau botymog a'r rheiny sy'n cael eu gosod y tu allan i dramwyfeydd preifat sy'n galluogi cerbydau modur i groesi'r droedffordd gyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn gosod cyrbau isel ar droedffyrdd mewn lleoliadau penodol i gynnig gwell mynediad i gerddwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn ac i gynnig gwell hygyrchedd i siopau, cyfleusterau meddygol ac amwynderau cyffredinol. Os oes unrhyw un yn cael problemau gyda defnyddio troedffordd, gall wneud cais am gwrbyn isel trwy gysylltu â'r Cyngor naill ai ar-lein neu drwy ein Canolfan Gyswllt.

#### **(vi) Cwestiwn gan Dr. Alexander Barrett**

Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, nodwyd bod gan Ysgol Gynradd Trwyn y De 60% o leoedd cynradd gwag ar hyn o bryd. Dros y pum mlynedd nesaf mae disgwyl i hyn ostwng i 14% ar yr amod bod mwy o alw am 98 o leoedd yn sgil y 354 o dai newydd i'r gogledd ddwyrain o'r rheilffordd yn y Rhws. Fodd bynnag, mae'r datblygwr wedi cyflwyno cynlluniau amgen ar gyfer dim ond 256 o dai newydd i'r gogledd ddwyrain o'r rheilffordd, ac mae disgwyl i 10 ohonynt fod ag un ystafell wely ac yn annhebygol o gynhyrchu'r galw am leoedd ysgol gynradd. Yn sgil hyn, beth mae'r Cyngor yn amcangyfrif fydd lefel y lleoedd gwag ar gyfer yr ysgol newydd hon mewn pum mlynedd?

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg**

Mae'r Cyngor wedi derbyn cais cynllunio ar gyfer cam olaf y dyraniad tai sy'n cael ei alw'n Dir i'r gogledd o'r Rheilffordd, y Rhws. Mae'r cais hwn yn y broses o gael ei ddilysu gan adran gynllunio'r Cyngor ar hyn o bryd ac nid yw wedi'i gyhoeddi'n gyhoeddus eto ar Gofrestr Gynllunio'r Cyngor. Fodd bynnag, rwy'n gallu dweud bod y cais wedi'i gyflwyno ar gyfer 262 o anheddau y bwriedir i 10 ohonynt fod yn unedau 1 ystafell wely.

Ac eithrio'r 10 annedd 1 ystafell wely, byddai nifer y disgyblion a gyfrifwyd yn arwain at alw yn ardal am tua 70 o leoedd ar gyfer plant oed cynradd o'i gymharu â 98 o leoedd ar gyfer datblygiad 354 annedd fel y rhagwelwyd yn flaenorol. Yn seiliedig ar nifer y disgyblion gan ddefnyddio nifer yr anheddau ar y cais a gyflwynwyd yn ddiweddar, byddai hyn yn arwain at 27% o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Trwyn y De dros gyfnod o bum mlynedd o'i gymharu â 14% ar gyfer y datblygiad mwy. Fodd bynnag, fel y nodwyd dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y cais hwn a gall dwysedd y datblygiad newid gan nad oes penderfyniad ar y cynnig wedi'i wneud ar hyn o bryd.

Ar ôl cwblhau'r datblygiad tai a'r effaith gadarnhaol y caiff ysgol newydd ar ardal, byddem yn disgwyl gweld cynnydd yn y niferoedd a dderbynnir i'r ysgol flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn ychwanegol at y rheiny a gynhyrchir gan ddatblygiad tai pellach. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd yn nifer y plant yn trosglwyddo i'r ysgol ers iddi ddod yn weithredol ar ei safle newydd.

(vii) **Cwestiwn gan Dr. Alexander Barrett**

Sut mae'r Cyngor yn esbonio'r ffaith bod y datblygiad tai i'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd yn y Rhws wedi creu llai o alw am leoedd cynradd Saesneg nag a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau cau Ysgol Gynradd Llancarfan? A yw'n bryd adolygu rhagdybiaethau modelu'r Cyngor er mwyn atal creu lleoedd gwag gormodol mewn datblygiadau ysgol newydd yn y dyfodol?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg**

Er bod cais cynllunio wedi ei dderbyn yn ddiweddar ar gyfer 262 o anheddau ar weddill y dyraniad tai a elwir yn Dir i'r gogledd o'r Rheilffordd, nid oes penderfyniad wedi'i wneud gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch a ddylid cymeradwyo'r cais. Bydd angen i swyddogion cynllunio'r Cyngor asesu a yw'r cynnig yn briodol yn erbyn polisi cynllunio cenedlaethol a lleol yn enwedig o ran y dwysedd arfaethedig ar gyfer y safle gan fod y cynnig ar hyn o bryd yn darparu llai na'r disgwyl dan Bolisi MG2 Dyraniadau Tai a Pholisi MD6 Dwyseddau Tai. Bydd angen i'r Cyngor ystyried a oes rhesymau priodol o ran pam bod y cais yn cynnwys llai o anheddau. Felly, mae'n rhy gynnar i gadarnhau a fydd y dyraniad tai yn darparu llai o leoedd ysgol cynradd na'r disgwyl.

Yn ogystal, mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael ar y pryd. Ynglŷn â'r penderfyniad i symud Ysgol Gynradd Llancarfan, rhagwelwyd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu 700 o dai. Roedd hyn yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd gan y datblygwr pan ddyrannwyd y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol. O ganlyniad, ystyriwyd bod nifer yr anheddau a ddyrannwyd yn ffigwr cadarn ac fe'i defnyddiwyd wedyn yng nghyfrifiadau'r Cyngor.

Mae'r methodoleg ar gyfer cyfrifo niferoedd disgyblion o ddatblygiadau tai ym Mro Morgannwg yn debyg i'r fethodoleg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill ac mae'n ddibynnol ar ddemograffeg ardal y Cyngor. Mae methodoleg y Cyngor ar gyfer cyfrifo niferoedd disgyblion o ddatblygiadau tai a rhagamcanion disgyblion yn gyson ac mae'r Cyngor yn fodlon ei fod yn adlewyrchu'r amodau presennol ar gyfer dibenion cynllunio lleoedd ysgol. Er enghraifft, rhagamcan y Cyngor o nifer y



disgyblion o'r datblygiad tai presennol oedd 131 o'i gymharu â nifer y disgyblion hyd yn hyn sef 116. Cwblhawyd yr unedau preswyl olaf dan Gam 1 y datblygiad yn 2022, o ganlyniad, nid yw'r garfan lawn o blant wedi'i hadlewyrchu'n llawn eto mewn derbyniadau ysgol.

Mae'n werth nodi bod y fformiwla a ddefnyddiwyd i gyfrifo lleoedd disgyblion a oedd yn deillio o ddatblygiadau tai wedi ei seilio ar ddata cyfrifiad o 2011, gan mai dyma oedd y wybodaeth ddiweddaraf adeg yr asesiad. Ond mae data cynnar o gyfrifiad 2021 bellach wedi ei gyhoeddi. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth ystadegol newydd o gyfrifiad 2021 i ddiweddarau ei fformiwla Rhwymedigaeth Gynllunio ar gyfer darpariaeth addysg.